Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for the |
| CYFARFOD BLYNYDDOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN | ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| ar | on |
| 20 MAI 2025 | 20 MAY 2025 |
| ➔ am 2:00 o'r gloch 🡐 | ➔ at 2:00 pm 🡐 |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

# R H A G L E N

**1.** **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2025.

**2.** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3.** **CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd neu'r Prif Weithredwr, ac unrhyw sylwadau terfynol gan y Cadeirydd ar ei gyfnod yn yn swydd y mae ei dymor yn dod i ben.

**4.** **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

**5.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2024/25**

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

**6.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2024/25**

Derbyn adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**[toriad byr]**

**7.** **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2025/26.

**(Cyfeirir yr Aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ar gyfer Ethol Cadeirydd y Cyngor Sir).**

**8.** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2025/26.

**9.** **AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 y Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd

enwau'r Cynghorwyr y mae ef wedi ei ddewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio.

## 10. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad, ethol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y flwyddyn sirol.

## 11. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor yw cytuno arno (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

## 12. CADARNHAU PWYLLGORAU

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau a ganlyn fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -

- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS)
- Is-Bwyllgor Indemniadau

## 13. RHAGLEN CYFARFODYDD CYFFREDINOL YN CYNGOR SIR AR GYFER 2025/26

Cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod: -

- 25 Medi 2025 - 2:00 pm
- 9 Rhagfyr 2025 - 2:00 pm
- 5 Mawrth 2026 - 2:00 pm
- Mai 2026 (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau

## 14. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL PWYLLGORAU

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

## 15. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

## 16. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2025/26

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 a'r Pennaeth Democratiaeth, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 19 Mawrth 2025.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Non Dafydd (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Kenneth Hughes, Trefor Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams a Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Odolion<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (MY),<br>Rheolwr Polisi a'r Iaith Gymraeg (FO) (eitem 10 yn unig),<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW) (eitem 12 yn unig).<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Llio Angharad Owen, Dafydd Rhys Thomas, Alwen P Watkin a Liz Wood<br><br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfodydd canlynol Cyngor Sir Ynys Môn yn gywir:-

- 3 Rhagfyr, 2024;
- 12 Rhagfyr, 2024 (Arbennig).

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Bu i’r Prif Swyddogion ddatgan budd personol yn Eitem 12 – Datganiad Polisi Tâl 2025 gan adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Llongyfarchiadau i Mr Mike Doran a Mr Mark Wade sydd wedi derbyn cymeradwyaeth swyddogol yn ddiweddar gan yr elusen bad achub (RNLI) am achub dringwr a oedd wedi syrthio i'r môr yn Ynys Arw. Cyflwynwyd tystysgrifau i'r ddau yng Ngorsaf Bad Achub Caergybi i gydnabod hyn.

- Llongyfarchiadau i Mrs Ann Harries Jones o Undeb Amaethwyr Cymru am ennill Gwobr Aur Pencampwr y Gymraeg mewn seremoni wobrwyo yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Mae Mrs Harries Jones wedi darparu gwasanaethau yswiriant yn Gymraeg ar yr Ynys ers dros 30 mlynedd.

- Llongyfarchiadau hefyd i MônActif ar ennill y wobr ‘Effaith ar Nofio a Diogelwch Dŵr Ysgolion’ yn ddiweddar. Cyflwynwyd y wobr gan Nofio Cymru, y Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer Gweithgareddau Dŵr, yn eu gwobrau blynyddol yng Nghaerdydd. Cafodd MônActif ei gydnabod am ei lwyddiant wrth drefnu cyfres o ddigwyddiadau 'Nofio'n Ddiogel' ledled yr Ynys.

- Llongyfarchiadau i Mr Twm Tudur o Ynys Môn a fu’n llwyddiannus yn ddiweddar ar raglen "Y Llais".

- Llongyfarchiadau i Miss Gwen Edwards a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Cân i Gymru 2025.

- Llongyfarchiadau i Mr Gorwel Owen o Lanfaelog a enillodd wobr Cyfraniad Arbennig yng Ngwobrau Cerddoriaeth Gymraeg y Selar y mis hwn. Mae'r wobr yn cael ei rhoi i artistiaid sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gerddoriaeth Gymraeg dros nifer o flynyddoedd.

- Llongyfarchiadau i Mr Will Young o Gaergybi sy'n aelod o Mencap Môn ac sydd ar daith gyda’r theatr ar hyn o bryd yn chwarae rhan Lennie yn "Of Mice and Men". Dyma'r ail dro iddo chwarae rhan Lennie, yn dilyn taith theatr lwyddiannus arall yn 2017.

- Llongyfarchiadau hefyd i Ms Gwenllian Howe o Frynteg. Mae’n gyn-aelod o Fand Ieuenctid Biwmares a bellach yn fyfyrwraig yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, mae Gwenllian wedi cael ei dewis i fod yn rhan o Fand Pres Ieuenctid Ewrop a bydd yn chwarae ochr yn ochr â cherddorion ifanc o 14 o wledydd eraill pan fyddant yn dod at ei gilydd yn Stavanger, Norwy ym mis Mai.

- Estynnwyd dymuniadau gorau i Mr Kevin Williams (Kev Bach) sydd wedi gadael Capital Radio ar ôl 27 mlynedd ar radio 103 gyda Champion, Heart a Capital. Mae Kevin yn un o leisiau mwyaf adnabyddus yr Ynys ac mae wedi

rhoi llwyfan i'r Gymraeg dros y blynyddoedd yn ogystal â chefnogi nifer o ddigwyddiadau lleol.

- Llongyfarchiadau i Gôr Ieuenctid Môn a enillodd wobr Côr Cenedlaethol Hŷn y Flwyddyn Barnardo's yn Neuadd Symffoni Birmingham yn ddiweddar.

* * * *

Cydymdeimlwyd â theulu Ms Marged Esli a fu farw'n ddiweddar. Roedd hi'n actores ac yn awdures adnabyddus ac fe'i magwyd yng Ngwalchmai.

* * * *

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn-Gynghorydd Sir ac Aelod o Senedd Cymru, Mr Peter Rogers a fu farw'n ddiweddar.

Talodd y Cynghorwyr Jeff Evans ac Aled Morris Jones deyrnged i'r diweddar Mr Peter Rogers am ei waith fel Cynghorydd Sir ac Aelod o Gynulliad Cymru a'i gyfraniad i'r gymuned ffermio.

* * * *

Cydymdeimlwyd â theulu'r Cyn-gynghorydd Sir Glyn Jones a fu farw'n ddiweddar. Roedd Mr Jones yn Gyn-gadeirydd y Cyngor ac yn Aelod Portffolio Tai tra bu'n gwasanaethu ar y Cyngor.

Talodd y Cynghorydd Aled Morris Jones deyrnged i'r diweddar Mr Glyn Jones am ei waith fel Cynghorydd Sir a Chyn-gadeirydd y Cyngor a'i waith fel Aelod Portffolio Tai.

* * *

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu’r Cyn-gynghorydd John Rowlands a fu farw'n ddiweddar. Roedd Mr Rowlands hefyd yn Gyn-gadeirydd y Cyngor ac yn cynrychioli Ward Llangoed.

Talodd y Cynghorydd Carwyn Jones deyrnged i'r diweddar Mr John Rowlands am ei waith fel Cynghorydd Sir a Chadeirydd y Cyngor. Gwasanaethodd y Cynghorydd Rowlands hefyd fel Cynghorydd Sir ar hen Gyngor Sir Gwynedd gan gynrychioli Wardiau Llanddona a Llangoed.

* * * *

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor Sir neu Staff a oedd wedi cael profedigaeth. Safodd Aelodau a Swyddogion mewn tawelwch i gofio amdanynt.

## 4. CYFWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 5. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd – Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd Geraint Bebb:-

*'Yn 2014, dynododd Ystâd y Goron ardal o wely'r môr oddi ar arfordir Ynys Cybi ar gyfer ynni'r llanw. Y nod i gynllun Morlais yw chwarae rhan i fynd i'r afael â newid hinsawdd gan sicrhau budd economaidd a chymdeithasol i gymunedau Ynys Môn, ond er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid talu les blynyddol i Ystâd y Goron.*

*Amcangyfrifir bod Ystâd y Goron yn berchen ar 65% o flaendraethau a gwelyau afonydd y wlad, a dros 50,000 o erwau o dir. Mae gwerth daliadau Ystâd y Goron yng Nghymru wedi codi o £96m yn 2020 i dros £853m yn 2023.*

*Dangosodd arolwg barn YouGov a gynhaliwyd yn 2023 fod 58% o bleidleiswyr Cymru o blaid i Gymru gymryd rheolaeth o asedau'r ystâd yng Nghymru yn hytrach na'i bod yn aros yn nwylo Trysorlys y DU.*

*Bydd hyn yn gwneud Cymru'n gyfartal a'r Alban sydd wedi cael yr hawl ers 2017. Mae coffrau ystâd y goron yn yr Alban yn werth dros £100m y flwyddyn. Swm sy'n gallu gwneud gwahaniaeth.*

*Gofyn ydwyf felly i ychwanegu enw ein hawdurdod at yr ymgyrch hon, gan y gallai newid bywydau a gwella ein holl gymunedau. Dylai Cymru, fel gwlad, fod â rheolaeth lwyr dros ei hasedau ei hun fel bod yr elw o fudd i'n cymunedau a'n gwlad fel y nodais yn yr esiampl o brosiect Morlais.*

*Rwyf yn gofyn i fy nghyd gynghorwyr am eu cefnogaeth i ofyn i Arweinydd ein Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a gwneud datganiad cyhoeddus yn galw am ddatganoli Ystâd y Goron i Gymru a hynny fel mater o frys.'*

Eiliodd y Cynghorydd Arfon Wyn y Cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Pip O'Neill fod angen rheoli disgwyliadau o ran yr incwm y gellid ei gynhyrchu o ddatganoli Ystâd y Goron i Gymru gan fod gan yr Alban flaendraeth sylweddol fwy. Dywedodd eu bod nhw fel Grŵp Llafur ar y Cyngor yn cefnogi'r cynnig ond eu bod yn siomedig bod y Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi pleidleisio yn erbyn galwadau am reolaeth dros Ystâd y Goron i weinidogion yng Nghymru.

Mewn ymateb i gyfeiriad gan y Cynghorydd Douglas M Fowlie a ddywedodd ei bod yn ymddangos nad yw llythyrau a anfonwyd ar wahanol bynciau at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cael eu hateb, dywedodd y Prif Weithredwr mai pwysigrwydd anfon llythyrau at y ddwy Lywodraeth yw codi'r proffil a chofnodi pryderon pwysig a godir gan y Cyngor hwn. Gan fod yr ohebiaeth yn faterion gwleidyddol, maent yn cael eu hanfon at Uwch Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Sicrhaodd y bydd yn mynd ar drywydd y

mater ac yn gwneud yn siŵr bod ymateb yn cael ei dderbyn i'r materion a godwyd gan y Cyngor hwn.

Yn dilyn pleidlais unfrydol:-

**Pasiwyd y cynnig.**

## 6. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI’R TRYSORLYS 2024/2025

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2025 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli’r Trysorlys ar gyfer 2024/2025.**

## 7. STRATEGAETH GYFALAF -2025-2030

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Chwefror, 2025 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y Strategaeth Gyfalaf 2025-20230.**

## 8. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI’R TRYSORLYS 2025/2026

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Chwefror, 2025 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/2026.**

## 9. CYLLIDEB 2025/2026

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror, 2024 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai fod hon wedi bod yn gyllideb heriol i'w chyflwyno. Nododd fod y setliad terfynol yng Nghymru yn cynnwys llawr, a oedd yn codi’r isafswm cynnydd i awdurdodau lleol i 3.8%. Gan mai cynnydd o 3.6% oedd setliad dros dro Ynys Môn, mae setliad terfynol Ynys Môn wedi cynyddu o £277k, i £135.881m. Pe bai'r Cyngor yn ceisio gwneud iawn am y diffyg yn y gyllideb trwy’r Dreth Gyngor yn unig, byddai'n golygu codi'r Dreth Gyngor o 20.6%. Yn ogystal â hyn, nododd y setliad terfynol y dylid rhoi grant pellach o £30m ledled Cymru, a fyddai'n rhoi cymorth i dalu'r costau sy'n wynebu awdurdodau lleol ar gyfer costau gofal cymdeithasol gwasanaeth oedolion. Bydd y £30m ychwanegol hwn yn darparu oddeutu £750k i'r Cyngor hwn mewn cyllid grant ychwanegol. Mae wedi galluogi'r Cyngor i

gynyddu'r cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio o £2m i £2.459m i gydbwyso'r gyllideb.  Yn sgil y cyllid ychwanegol ac o ystyried yr ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus, dywedodd fod y Pwyllgor Gwaith wedi cynnig y newidiadau canlynol i'r gyllideb arfaethedig gychwynnol, sef peidio â gweithredu'r cynnig i gyflwyno ffioedd gwasanaeth ar gyfer unedau diwydiannol a busnes, peidio â gweithredu'r cynnig i leihau nifer y diwrnodau y mae canolfannau ailgylchu'r Cyngor ar agor a neilltuo £217k i dalu costau newid offer TG mewn ysgolion yn y dyfodol. Eglurodd, gan fod y Pwyllgor Gwaith eisoes wedi gwneud darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn y gyllideb arfaethedig gychwynnol, gellir defnyddio'r cyllid grant mewn mannau eraill a gellir ei ddefnyddio i helpu i ostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 8.5% (7.85% ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor a 0.65% ar gyfer y cynnydd yn ardoll y Gwasanaeth Tân) gan wneud cynnydd Ynys Môn yr ail isaf o gynghorau Gogledd Cymru.  O ganlyniad bydd tâl Band D yn £1,705.95, cynnydd o £133.65 (£2.57 yr wythnos)).

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai at y Gyllideb Gyfalaf o £44.294m ar gyfer 2025/2026.  Mae sefyllfa'r gyllideb gyfalaf wedi bod yn heriol ers tro ac er bod y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 £401k yn uwch na dyraniad 2024/25, dyma'r cynnydd sylweddol cyntaf y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud iawn am yr erydiad yng ngwerth y cyllid oherwydd chwyddiant ac o ystyried bod deunyddiau adeiladu wedi cynyddu dros 100% dros y blynyddoedd diwethaf.

At hyn, dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai fod angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ariannu awdurdodau lleol yn briodol a bod angen edrych ar y fformiwla a ddefnyddir yng Nghymru i ddosbarthu adnoddau i awdurdodau lleol.

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai yr argymhellion i'r Cyngor llawn fel y gwelir yn (a), (b) ac (c) o'r adroddiadau.

Rhoddwyd cyfle i aelodau wneud sylwadau a gofyn cwestiynau. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor, Aelod Portffolio Cyllid a Thai, yr Aelodau Portffolio perthnasol, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i gwestiynau a materion a godwyd gan y pwyllgor yn y drafodaeth ddilynol fel a ganlyn:-

- Mae'r cynnydd parhaus yn y Dreth Gyngor yn anghynaliadwy gan fod pobl yn cael trafferth talu eu Treth Gyngor flwyddyn ar ôl blwyddyn ynghyd â chynnydd mewn prisiau ynni ac mae rhai pobl o'r farn mai'r unig wasanaeth maen nhw'n ei dderbyn gan y Cyngor yw gwagio eu biniau. Dylai'r ddwy lywodraeth ystyried proses decach o gasglu'r Dreth Gyngor.

  Mewn ymateb cytunwyd bod angen adolygu'r system Dreth Gyngor ond mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r system bresennol.  Mae'r gyllideb eleni wedi bod yn heriol ac wedi arwain at ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, rhai toriadau i wasanaethau a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i gydbwyso'r gyllideb.  Gan fod y boblogaeth yn heneiddio, mae'r galw am wasanaethau i oedolion yn cynyddu ac mae hynny wedi arwain at orwariant o fewn y

gwasanaeth. Nodwyd bod sylwadau wedi'u mynegi ar y cyfryngau cymdeithasol bod angen i'r Awdurdod gael ei weinyddu'n debyg i fusnes. Rhaid i Awdurdodau Lleol ymateb i anghenion gofal y rhai sy'n agored i niwed ac nid yw’n gallu gwrthod person sydd mewn angen mawr am gymorth.

Wrth fynd i'r afael â'r sylwadau ynglŷn â dim ond casglu biniau trigolion a wneir gan y Cyngor, amlinellodd yr Arweinydd y gwasanaethau statudol a ddarperir gan y Cyngor.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i dynnu sylw at ddiffyg cyllid priodol gan Lywodraethau'r DU sy'n arwain at lai o adnoddau i'w dosbarthu i lywodraeth leol. Nodwyd bod yr awdurdod hwn yn Gyngor ymatebol a gall ymateb i sefyllfaoedd gwahanol fod yn risg ac yn wendid.

  Mewn ymateb, tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cyngor hwn yn Awdurdod effeithlon ac effeithiol sydd â'r gyfradd Dreth Gyngor isaf yng Ngogledd Cymru. Mae Archwilio Cymru wedi canmol y Cyngor mewn Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ddiweddar am y ffordd y mae wedi perfformio gyda'r gyllideb refeniw dros y blynyddoedd a'r defnydd darbodus o gronfeydd wrth gefn i gau'r bwlch yn y broses pennu'r gyllideb. Dywedodd yr Arweinydd fod angen setliad gan Lywodraeth Cymru am sawl blwyddyn yn hytrach na dibynnu ar setliadau blynyddol.

- Cyfeiriwyd at Gynllun y Cyngor 2023-2028 sy'n tynnu sylw at yr amcanion strategol i hyrwyddo cyfleoedd ac i ddatblygu economi'r Ynys. Gallai'r Ynys elwa o Gyllid Codi’r Gwastad, statws Porthladd Rhydd, Parc Ffyniant, datblygiad newydd ar safle’r 2Sisters yn Llangefni, potensial Wylfa Newydd a Pharc Gwyliau Penrhos yng Nghaergybi ond mae'n ymddangos nad yw'r cyfleoedd i bobl ifanc aros a gweithio ar yr Ynys yn cael eu gwireddu a’u bod o ganlyniad yn symud i ffwrdd i weithio.

  Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod Cynllun y Cyngor yn gynllun 5 mlynedd, a gobeithio y bydd y cyfleoedd yn cael eu gwireddu i sicrhau dyfodol gwell i drigolion yr Ynys. Fodd bynnag, mae cyfleoedd datblygu yn cymryd amser i’w gwireddu, a sicrhaodd fod gwaith parhaus yn cael ei wneud i fwrw ymlaen â'r prosiectau hyn a restrir uchod.

- Dylid ymchwilio i'r cynnydd cenedlaethol mewn llety gwyliau sy’n cael eu gosod ac sy'n osgoi talu'r Dreth Gyngor a allai gynhyrchu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol. Mynegwyd bod rhai eiddo’n manteisio ar ardrethi busnes.

  Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai fod gwaith yn mynd rhagddo i gyflogi person i adolygu'r llety gwyliau sy’n cael eu gosod. Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Brisio yn gwerthuso rheolau newydd ar gyfer gosod llety gwyliau yng Nghymru a bydd angen i fusnesau sy’n gosod llety gwyliau gael eu defnyddio am 182 diwrnod y flwyddyn i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Swyddog Prisio yn adolygu'r eiddo sy'n talu ardrethi busnes ar eu heiddo ar hyn o bryd, a

byddant yn dychwelyd i bremiwm llawn y Dreth Gyngor os nad ydynt yn bodloni rheolau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gosod y llety gwyliau.

- Mae'r premiwm o 100% ar gartrefi gwag wedi arwain at deuluoedd lleol o Gymru yn cael trafferth talu'r taliadau ar ôl etifeddu eiddo teuluol. Nid yw rhai teuluoedd yn gallu rhentu na gwerthu'r eiddo oherwydd costau adnewyddu ac nid yw rhai teuluoedd eisiau gwerthu'r cartrefi teuluol a etifeddir ganddynt. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr incwm a gynhyrchir o'r premiwm ar ail gartrefi a chartrefi gwag wedi cynhyrchu £6.3m i'r Cyngor hwn.

  Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai fod y premiwm 100% ar gartrefi gwag yn gymhelliant i annog pobl i adnewyddu, gwerthu neu rentu eu heiddo fel eu bod ar gael i bobl fyw yn y tai hyn. Mae lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag wedi'i gadw ar 100% ar gyfer 2025/2026 er bod opsiwn i godi'r premiwm hyd at 300%. Dywedodd yr Arweinydd fod 800 o bobl ar y rhestr tai cymdeithasol a bod 800 o eiddo gwag cyfatebol ar hyn o bryd a bod argyfwng cenedlaethol a lleol o ran digartrefedd a thlodi.

- Cyfeiriwyd at effeithlonrwydd ynni ysgolion ar yr Ynys gyda chostau gwresogi Ysgol Corn Hir, Llangefni yn £40k am chwarter. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr mai costau gwresogi Ysgol Corn Hir oedd £42,800 am dri chwarter ers mis Ebrill y llynedd.

- Cyfeiriwyd at lwyddiant Tai Clyd i ganiatáu i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal allu byw a derbyn eu haddysg yn eu cymunedau lleol. Holwyd pam fod rhai plant mewn gofal yn dal i orfod cael eu lleoli y tu allan i'r sir sy'n gostus.

  Mewn ymateb, dywedodd Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd fod y lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen gofal arbenigol oherwydd profiadau o drawma, anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl difrifol. Cyfeiriodd at lwyddiant darpariaeth Tai Clyd ar Ynys Môn a dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd mwy o ddarpariaethau o'r fath yn y dyfodol. Nododd fod 161 o blant a phobl ifanc yng ngofal y Cyngor ar hyn o bryd.

Pleidleisiodd 24 o blaid, 7 yn erbyn ac ni wnaeth unrhyw un ymatal.

**PENDERFYNWYD:-**

**• Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2025/2026.**
**• Derbyn y Penderfyniad drafft ar y Dreth Gyngor fel y nodir yn (c) yn yr Agenda:-**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu Cyllideb 2025/26, yn Adran 5, fel Strategaeth Cyllideb o fewn yr ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol ac eithrio'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

(b) Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb refeniw 2025/26 fel y'i nodir yn adroddiad y Gyllideb 2025/26 ag Atodiad 1 ac Atodiad 2.

(c) Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb cyfalaf fel y'i nodir yn adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2025/26.

**(ch)** Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Cyllid 151 y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yng Nghyllideb Arfaethedig Derfynol 2025/26 yn Atodiad 2 er mwyn cyflawni penderfyniadau'r Cyngor. Hefyd, dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y pŵer i drosglwyddo hyd at £50k yr eitem o'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Bydd unrhyw eitem sy'n fwy na £50k angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn y gwneir unrhyw drosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2025/26, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn

**(i)** pwerau heb gyfyngiad i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 2 Cyllideb Arfaethedig Derfynol 2025/26 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i gymeradwyo'r defnydd o arian gwasanaethau a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gyllido cynigion gwariant untro sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2025/26 ac ar gyngor y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) – Swyddog Adran 151, y pŵer i ryddhau hyd at £250k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026 y pwerau a ganlyn:-

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i wneud arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2025/26 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion darbodus a rhai'r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynau ar gyfer 2025/26 ac ymlaen fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26.

**(ff)** Cymeradwyo'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 a Strategaeth Gyfalaf 2025/26.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2023/24 benderfyniad y Cyngor Sir, a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Penodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Rhagnodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Rhagnodedig B | Dim Disgownt |

3. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2025/26 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, fel a ganlyn :-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Rhagnodedig C | Dim Disgownt |

4. **PENDERFYNWYD** datgymhwyso unrhyw ddisgownt(au) a ganiatawyd i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a ddefnyddir yn achlysurol (y cyfeirir atynt fel arfer fel ail gartrefi) ac i amrywio penderfyniad y Cyngor llawn a wnaed ar 28 Chwefror 2018 a gosod am y flwyddyn ariannol 2025/26 swm uwch o'r Dreth Gyngor (sef premiwm y Dreth Cyngor) o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor neu ar gyfer anheddau a ddefnyddir o bryd i'w gilydd (y cyfeirir atynt fel arfer fel ail gartrefi) i osod swm uwch o Dreth Gyngor (sef premiwm y Dreth Gyngor) o 100% o dan Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

5. Nodi bod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996, wedi penderfynu na fydd yn ymdrin ag unrhyw gostau sy'n wynebu'r Cyngor mewn rhan o'i ardal na thalu unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael eu diddymu'n benodol.

6. Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2024, wedi cymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2025/26 a nodi ymhellach bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am y blynyddoedd dilynol oni bai y caiff ei ddiwygio'n sylweddol. Nodwyd hefyd fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol y Dreth Gyngor leol dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddirymu, ailddeddfu ac/neu ddiwygio'r Polisi. Diwygiodd y Pwyllgor Gwaith y Polisi yma ar 03 Mawrth 2022

7. Yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2024, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, a'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, gymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2025/26, fel a ganlyn:-

   a) **33,472.17** yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail treth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

   b) Mae'r rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a gyfrifwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sail ar gyfer dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, fel a ganlyn:-

| **Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned** | **Sail y Dreth 2025/26** |
|---|---:|
| Amlwch | 1,558.06 |
| Biwmares | 1,162.14 |
| Caergybi | 4,100.82 |
| Llangefni | 2,136.18 |
| Porthaethwy | 1,525.77 |
| Llanddaniel-fab | 382.90 |

| Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned | Sail y Dreth 2025/26 |
|---|---|
| Llanddona | 422.03 |
| Cwm Cadnant | 1,234.98 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,336.39 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 714.60 |
| Bodorgan | 486.31 |
| Llangoed | 702.13 |
| Llangristiolus & Cerrigceinwen | 652.47 |
| Llanidan | 427.80 |
| Rhosyr | 1,061.75 |
| Penmynydd | 250.14 |
| Pentraeth | 613.98 |
| Moelfre | 706.87 |
| Llanbadrig | 716.15 |
| Llanddyfnan | 522.47 |
| Llaneilian | 652.66 |
| Llannerch-y-medd | 544.50 |
| Llaneugrad | 210.59 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 2,036.74 |
| Cylch y Garn | 436.31 |
| Mechell | 593.58 |
| Rhos-y-bol | 491.43 |
| Aberffraw | 322.08 |
| Bodedern | 452.11 |
| Bodffordd | 430.38 |
| Trearddur | 1,519.06 |
| Tref Alaw | 274.15 |
| Llanfachraeth | 237.62 |
| Llanfaelog | 1,456.45 |
| Llanfaethlu | 289.73 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 587.89 |
| Fali | 1,085.57 |
| Bryngwran | 369.72 |
| Rhoscolyn | 396.18 |
| Trewalchmai | 371.48 |
| **Cyfanswm Sail y Dreth Gyngor** | **33,472.17** |

**8.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2025/26, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £261,985,133 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £66,797,928 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) ac (c) o'r Ddeddf.

c) £195,187,205 sef y swm y mae'r cyfanswm yn 8(a) uchod yn fwy na'r cyfanswm yn 8(b) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn.

ch) £135,881,460 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn daladwy am y flwyddyn i gronfa'r cyngor mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, grant cynnal refeniw a grant penodol, llai unrhyw swm a gyfrifir yn unol ag Adran 33(3) o'r Ddeddf.

**d)** £1,771.79 sef y swm yn 8(c) uchod llai y swm yn 8(ch) uchod, y cyfan wedi'i rannu â'r swm yn 7(a) uchod, a gyfrifir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei threth gyngor am y flwyddyn.

dd) £2,203,901 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.

e) £1,705.95 sef y swm yn 8(d) uchod llai y canlyniad a geir drwy rannu'r swm yn 8(dd) uchod â'r swm yn 7(a) uchod, a gyfrifir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei threth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i hardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn ymwneud â nhw.

f)

| **Ardaloedd Cyngor Cymuned / Tref** | | **Band D cyfatebol fesul ardal gan gynnwys Cyngor Ynys Môn ac elfennau Cyngor Cymuned / Tref** |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,784.34 |
| Biwmares | £ | 1,738.17 |
| Caergybi | £ | 1,885.68 |
| Llangefni | £ | 1,868.22 |
| Porthaethwy | £ | 1,801.26 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,747.62 |
| Llanddona | £ | 1,726.11 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,733.67 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,795.77 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,741.59 |
| Bodorgan | £ | 1,733.13 |
| Llangoed | £ | 1,744.38 |
| Llangristiolus a Cerrig Ceinwen | £ | 1,718.19 |
| Llanidan | £ | 1,748.07 |
| Rhosyr | £ | 1,740.60 |
| Penmynydd | £ | 1,745.91 |
| Pentraeth | £ | 1,736.19 |
| Moelfre | £ | 1,726.47 |
| Llanbadrig | £ | 1,752.57 |
| Llanddyfnan | £ | 1,728.90 |
| Llaneilian | £ | 1,743.84 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,749.69 |
| Llaneugrad | £ | 1,724.94 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,740.69 |
| Cylch y Garn | £ | 1,724.31 |
| Mechell | £ | 1,724.49 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,722.24 |
| Aberffraw | £ | 1,743.21 |
| Bodedern | £ | 1,739.16 |
| Bodffordd | £ | 1,740.78 |
| Trearddur | £ | 1,729.62 |
| Tref Alaw | £ | 1,730.52 |
| Llanfachraeth | £ | 1,764.90 |
| Llanfaelog | £ | 1,736.19 |
| Llanfaethlu | £ | 1,730.07 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,741.68 |
| Fali | £ | 1,762.11 |
| Bryngwran | £ | 1,746.54 |
| Rhoscolyn | £ | 1,726.11 |
| Trewalchmai | £ | 1,746.36 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a gyfrifir gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**Bandiau Prisio**

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 8(e) a 8(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a gyfrifir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

| | | Y Dreth Gyngor fesul band, fesul ardal, sy'n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn ac elfennau / Praeseptau Cyngor Cymuned / Tref | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 1,189.56 | 1,387.82 | 1,586.08 | 1,784.34 | 2,180.86 | 2,577.38 | 2,973.90 | 3,568.68 | 4,163.46 |
| Biwmares | £ | 1,158.78 | 1,351.91 | 1,545.04 | 1,738.17 | 2,124.43 | 2,510.69 | 2,896.95 | 3,476.34 | 4,055.73 |
| Caergybi | £ | 1,257.12 | 1,466.64 | 1,676.16 | 1,885.68 | 2,304.72 | 2,723.76 | 3,142.80 | 3,771.36 | 4,399.92 |
| Llangefni | £ | 1,245.48 | 1,453.06 | 1,660.64 | 1,868.22 | 2,283.38 | 2,698.54 | 3,113.70 | 3,736.44 | 4,359.18 |
| Porthaethwy | £ | 1,200.84 | 1,400.98 | 1,601.12 | 1,801.26 | 2,201.54 | 2,601.82 | 3,002.10 | 3,602.52 | 4,202.94 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,165.08 | 1,359.26 | 1,553.44 | 1,747.62 | 2,135.98 | 2,524.34 | 2,912.70 | 3,495.24 | 4,077.78 |
| Llanddona | £ | 1,150.74 | 1,342.53 | 1,534.32 | 1,726.11 | 2,109.69 | 2,493.27 | 2,876.85 | 3,452.22 | 4,027.59 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,155.78 | 1,348.41 | 1,541.04 | 1,733.67 | 2,118.93 | 2,504.19 | 2,889.45 | 3,467.34 | 4,045.23 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,197.18 | 1,396.71 | 1,596.24 | 1,795.77 | 2,194.83 | 2,593.89 | 2,992.95 | 3,591.54 | 4,190.13 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,161.06 | 1,354.57 | 1,548.08 | 1,741.59 | 2,128.61 | 2,515.63 | 2,902.65 | 3,483.18 | 4,063.71 |
| Bodorgan | £ | 1,155.42 | 1,347.99 | 1,540.56 | 1,733.13 | 2,118.27 | 2,503.41 | 2,888.55 | 3,466.26 | 4,043.97 |
| Llangoed | £ | 1,162.92 | 1,356.74 | 1,550.56 | 1,744.38 | 2,132.02 | 2,519.66 | 2,907.30 | 3,488.76 | 4,070.22 |
| Llangristiolus a Cerrig Ceinwen | £ | 1,145.46 | 1,336.37 | 1,527.28 | 1,718.19 | 2,100.01 | 2,481.83 | 2,863.65 | 3,436.38 | 4,009.11 |
| Llanidan | £ | 1,165.38 | 1,359.61 | 1,553.84 | 1,748.07 | 2,136.53 | 2,524.99 | 2,913.45 | 3,496.14 | 4,078.83 |
| Rhosyr | £ | 1,160.40 | 1,353.80 | 1,547.20 | 1,740.60 | 2,127.40 | 2,514.20 | 2,901.00 | 3,481.20 | 4,061.40 |
| Penmynydd | £ | 1,163.94 | 1,357.93 | 1,551.92 | 1,745.91 | 2,133.89 | 2,521.87 | 2,909.85 | 3,491.82 | 4,073.79 |
| Pentraeth | £ | 1,157.46 | 1,350.37 | 1,543.28 | 1,736.19 | 2,122.01 | 2,507.83 | 2,893.65 | 3,472.38 | 4,051.11 |
| Moelfre | £ | 1,150.98 | 1,342.81 | 1,534.64 | 1,726.47 | 2,110.13 | 2,493.79 | 2,877.45 | 3,452.94 | 4,028.43 |
| Llanbadrig | £ | 1,168.38 | 1,363.11 | 1,557.84 | 1,752.57 | 2,142.03 | 2,531.49 | 2,920.95 | 3,505.14 | 4,089.33 |
| Llanddyfnan | £ | 1,152.60 | 1,344.70 | 1,536.80 | 1,728.90 | 2,113.10 | 2,497.30 | 2,881.50 | 3,457.80 | 4,034.10 |
| Llaneilian | £ | 1,162.56 | 1,356.32 | 1,550.08 | 1,743.84 | 2,131.36 | 2,518.88 | 2,906.40 | 3,487.68 | 4,068.96 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,166.46 | 1,360.87 | 1,555.28 | 1,749.69 | 2,138.51 | 2,527.33 | 2,916.15 | 3,499.38 | 4,082.61 |
| Llaneugrad | £ | 1,149.96 | 1,341.62 | 1,533.28 | 1,724.94 | 2,108.26 | 2,491.58 | 2,874.90 | 3,449.88 | 4,024.86 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,160.46 | 1,353.87 | 1,547.28 | 1,740.69 | 2,127.51 | 2,514.33 | 2,901.15 | 3,481.38 | 4,061.61 |
| Cylch y Garn | £ | 1,149.54 | 1,341.13 | 1,532.72 | 1,724.31 | 2,107.49 | 2,490.67 | 2,873.85 | 3,448.62 | 4,023.39 |
| Mechell | £ | 1,149.66 | 1,341.27 | 1,532.88 | 1,724.49 | 2,107.71 | 2,490.93 | 2,874.15 | 3,448.98 | 4,023.81 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,148.16 | 1,339.52 | 1,530.88 | 1,722.24 | 2,104.96 | 2,487.68 | 2,870.40 | 3,444.48 | 4,018.56 |
| Aberffraw | £ | 1,162.14 | 1,355.83 | 1,549.52 | 1,743.21 | 2,130.59 | 2,517.97 | 2,905.35 | 3,486.42 | 4,067.49 |
| Bodedern | £ | 1,159.44 | 1,352.68 | 1,545.92 | 1,739.16 | 2,125.64 | 2,512.12 | 2,898.60 | 3,478.32 | 4,058.04 |
| Bodffordd | £ | 1,160.52 | 1,353.94 | 1,547.36 | 1,740.78 | 2,127.62 | 2,514.46 | 2,901.30 | 3,481.56 | 4,061.82 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trearddur | £ | 1,153.08 | 1,345.26 | 1,537.44 | 1,729.62 | 2,113.98 | 2,498.34 | 2,882.70 | 3,459.24 | 4,035.78 |
| Tref Alaw | £ | 1,153.68 | 1,345.96 | 1,538.24 | 1,730.52 | 2,115.08 | 2,499.64 | 2,884.20 | 3,461.04 | 4,037.88 |
| Llanfachraeth | £ | 1,176.60 | 1,372.70 | 1,568.80 | 1,764.90 | 2,157.10 | 2,549.30 | 2,941.50 | 3,529.80 | 4,118.10 |
| Llanfaelog | £ | 1,157.46 | 1,350.37 | 1,543.28 | 1,736.19 | 2,122.01 | 2,507.83 | 2,893.65 | 3,472.38 | 4,051.11 |
| Llanfaethlu | £ | 1,153.38 | 1,345.61 | 1,537.84 | 1,730.07 | 2,114.53 | 2,498.99 | 2,883.45 | 3,460.14 | 4,036.83 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,161.12 | 1,354.64 | 1,548.16 | 1,741.68 | 2,128.72 | 2,515.76 | 2,902.80 | 3,483.36 | 4,063.92 |
| Fali | £ | 1,174.74 | 1,370.53 | 1,566.32 | 1,762.11 | 2,153.69 | 2,545.27 | 2,936.85 | 3,524.22 | 4,111.59 |
| Bryngwran | £ | 1,164.36 | 1,358.42 | 1,552.48 | 1,746.54 | 2,134.66 | 2,522.78 | 2,910.90 | 3,493.08 | 4,075.26 |
| Rhoscolyn | £ | 1,150.74 | 1,342.53 | 1,534.32 | 1,726.11 | 2,109.69 | 2,493.27 | 2,876.85 | 3,452.22 | 4,027.59 |
| Trewalchmai | £ | 1,164.24 | 1,358.28 | 1,552.32 | 1,746.36 | 2,134.44 | 2,522.52 | 2,910.60 | 3,492.72 | 4,074.84 |

**9.** Y dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2025/26, fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

**Awdurdod Praeseptio** **Bandiau Prisio**

| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 248.10 | 289.45 | 330.80 | 372.15 | 454.85 | 537.55 | 620.25 | 744.30 | 868.35 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2025/26 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

| | | Y Dreth Gyngor fesul Band, ym mhob ardal, sy'n cynnwys elfen Cyngor Sir Ynys-Môn, Praeseptau Cyngor Cymunedol / Tref a Phraesept Heddlu Gogledd Cymru | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 1,437.66 | 1,677.27 | 1,916.88 | 2,156.49 | 2,635.71 | 3,114.93 | 3,594.15 | 4,312.98 | 5,031.81 |
| Biwmares | £ | 1,406.88 | 1,641.36 | 1,875.84 | 2,110.32 | 2,579.28 | 3,048.24 | 3,517.20 | 4,220.64 | 4,924.08 |
| Caergybi | £ | 1,505.22 | 1,756.09 | 2,006.96 | 2,257.83 | 2,759.57 | 3,261.31 | 3,763.05 | 4,515.66 | 5,268.27 |
| Llangefni | £ | 1,493.58 | 1,742.51 | 1,991.44 | 2,240.37 | 2,738.23 | 3,236.09 | 3,733.95 | 4,480.74 | 5,227.53 |
| Porthaethwy | £ | 1,448.94 | 1,690.43 | 1,931.92 | 2,173.41 | 2,656.39 | 3,139.37 | 3,622.35 | 4,346.82 | 5,071.29 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,413.18 | 1,648.71 | 1,884.24 | 2,119.77 | 2,590.83 | 3,061.89 | 3,532.95 | 4,239.54 | 4,946.13 |
| Llanddona | £ | 1,398.84 | 1,631.98 | 1,865.12 | 2,098.26 | 2,564.54 | 3,030.82 | 3,497.10 | 4,196.52 | 4,895.94 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,403.88 | 1,637.86 | 1,871.84 | 2,105.82 | 2,573.78 | 3,041.74 | 3,509.70 | 4,211.64 | 4,913.58 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,445.28 | 1,686.16 | 1,927.04 | 2,167.92 | 2,649.68 | 3,131.44 | 3,613.20 | 4,335.84 | 5,058.48 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,409.16 | 1,644.02 | 1,878.88 | 2,113.74 | 2,583.46 | 3,053.18 | 3,522.90 | 4,227.48 | 4,932.06 |
| Bodorgan | £ | 1,403.52 | 1,637.44 | 1,871.36 | 2,105.28 | 2,573.12 | 3,040.96 | 3,508.80 | 4,210.56 | 4,912.32 |
| Llangoed | £ | 1,411.02 | 1,646.19 | 1,881.36 | 2,116.53 | 2,586.87 | 3,057.21 | 3,527.55 | 4,233.06 | 4,938.57 |
| Llangristiolus a Cerrig Ceinwen | £ | 1,393.56 | 1,625.82 | 1,858.08 | 2,090.34 | 2,554.86 | 3,019.38 | 3,483.90 | 4,180.68 | 4,877.46 |
| Llanidan | £ | 1,413.48 | 1,649.06 | 1,884.64 | 2,120.22 | 2,591.38 | 3,062.54 | 3,533.70 | 4,240.44 | 4,947.18 |
| Rhosyr | £ | 1,408.50 | 1,643.25 | 1,878.00 | 2,112.75 | 2,582.25 | 3,051.75 | 3,521.25 | 4,225.50 | 4,929.75 |
| Penmynydd | £ | 1,412.04 | 1,647.38 | 1,882.72 | 2,118.06 | 2,588.74 | 3,059.42 | 3,530.10 | 4,236.12 | 4,942.14 |
| Pentraeth | £ | 1,405.56 | 1,639.82 | 1,874.08 | 2,108.34 | 2,576.86 | 3,045.38 | 3,513.90 | 4,216.68 | 4,919.46 |
| Moelfre | £ | 1,399.08 | 1,632.26 | 1,865.44 | 2,098.62 | 2,564.98 | 3,031.34 | 3,497.70 | 4,197.24 | 4,896.78 |
| Llanbadrig | £ | 1,416.48 | 1,652.56 | 1,888.64 | 2,124.72 | 2,596.88 | 3,069.04 | 3,541.20 | 4,249.44 | 4,957.68 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanddyfnan | £ | 1,400.70 | 1,634.15 | 1,867.60 | 2,101.05 | 2,567.95 | 3,034.85 | 3,501.75 | 4,202.10 | 4,902.45 |
| Llaneilian | £ | 1,410.66 | 1,645.77 | 1,880.88 | 2,115.99 | 2,586.21 | 3,056.43 | 3,526.65 | 4,231.98 | 4,937.31 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,414.56 | 1,650.32 | 1,886.08 | 2,121.84 | 2,593.36 | 3,064.88 | 3,536.40 | 4,243.68 | 4,950.96 |
| Llaneugrad | £ | 1,398.06 | 1,631.07 | 1,864.08 | 2,097.09 | 2,563.11 | 3,029.13 | 3,495.15 | 4,194.18 | 4,893.21 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,408.56 | 1,643.32 | 1,878.08 | 2,112.84 | 2,582.36 | 3,051.88 | 3,521.40 | 4,225.68 | 4,929.96 |
| Cylch y Garn | £ | 1,397.64 | 1,630.58 | 1,863.52 | 2,096.46 | 2,562.34 | 3,028.22 | 3,494.10 | 4,192.92 | 4,891.74 |
| Mechell | £ | 1,397.76 | 1,630.72 | 1,863.68 | 2,096.64 | 2,562.56 | 3,028.48 | 3,494.40 | 4,193.28 | 4,892.16 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,396.26 | 1,628.97 | 1,861.68 | 2,094.39 | 2,559.81 | 3,025.23 | 3,490.65 | 4,188.78 | 4,886.91 |
| Aberffraw | £ | 1,410.24 | 1,645.28 | 1,880.32 | 2,115.36 | 2,585.44 | 3,055.52 | 3,525.60 | 4,230.72 | 4,935.84 |
| Bodedern | £ | 1,407.54 | 1,642.13 | 1,876.72 | 2,111.31 | 2,580.49 | 3,049.67 | 3,518.85 | 4,222.62 | 4,926.39 |
| Bodffordd | £ | 1,408.62 | 1,643.39 | 1,878.16 | 2,112.93 | 2,582.47 | 3,052.01 | 3,521.55 | 4,225.86 | 4,930.17 |
| Trearddur | £ | 1,401.18 | 1,634.71 | 1,868.24 | 2,101.77 | 2,568.83 | 3,035.89 | 3,502.95 | 4,203.54 | 4,904.13 |
| Tref Alaw | £ | 1,401.78 | 1,635.41 | 1,869.04 | 2,102.67 | 2,569.93 | 3,037.19 | 3,504.45 | 4,205.34 | 4,906.23 |
| Llanfachraeth | £ | 1,424.70 | 1,662.15 | 1,899.60 | 2,137.05 | 2,611.95 | 3,086.85 | 3,561.75 | 4,274.10 | 4,986.45 |
| Llanfaelog | £ | 1,405.56 | 1,639.82 | 1,874.08 | 2,108.34 | 2,576.86 | 3,045.38 | 3,513.90 | 4,216.68 | 4,919.46 |
| Llanfaethlu | £ | 1,401.48 | 1,635.06 | 1,868.64 | 2,102.22 | 2,569.38 | 3,036.54 | 3,503.70 | 4,204.44 | 4,905.18 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,409.22 | 1,644.09 | 1,878.96 | 2,113.83 | 2,583.57 | 3,053.31 | 3,523.05 | 4,227.66 | 4,932.27 |
| Fali | £ | 1,422.84 | 1,659.98 | 1,897.12 | 2,134.26 | 2,608.54 | 3,082.82 | 3,557.10 | 4,268.52 | 4,979.94 |
| Bryngwran | £ | 1,412.46 | 1,647.87 | 1,883.28 | 2,118.69 | 2,589.51 | 3,060.33 | 3,531.15 | 4,237.38 | 4,943.61 |
| Rhoscolyn | £ | 1,398.84 | 1,631.98 | 1,865.12 | 2,098.26 | 2,564.54 | 3,030.82 | 3,497.10 | 4,196.52 | 4,895.94 |
| Trewalchmai | £ | 1,412.34 | 1,647.73 | 1,883.12 | 2,118.51 | 2,589.29 | 3,060.07 | 3,530.85 | 4,237.02 | 4,943.19 |

## 10. ADOLYGIAD POLISI IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2025 i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Dywedodd Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg fod polisi Cymraeg presennol y Cyngor wedi'i fabwysiadu yn 2016 pan ddaeth safonau statudol y Gymraeg i rym, ers hynny, mae'r ddealltwriaeth o'r safonau wedi aeddfedu, ac mae arferion yr Awdurdod mewn perthynas â'r iaith wedi datblygu'n sylweddol. Mae'r defnydd o'r Gymraeg wedi cael ei gryfhau o fewn gweinyddiaeth y Cyngor. Nododd fod gohebiaeth wedi cael ei derbyn yn ddiweddar yn awgrymu bod ymrwymiad yr Awdurdod i'r Gymraeg wedi cael ei wanhau. Dywedodd fod hyn yn gamarweiniol gan fod y Gymraeg yn un o'r 6 amcan yng Nghynllun y Cyngor.

Roedd y Cynghorydd Pip O'Neill yn dymuno cofnodi ei werthfawrogiad i'r Cyngor am y cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig.**

## 11. TREFNIADAU CRAFFU'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i'r Cyngor ei dderbyn.

Dywedodd Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y trefniadau craffu ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rhagwelir y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gyfrifol am gyflawni Cais Twf Gogledd Cymru ym mis Ebrill, 2025 yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldebau gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Tynnodd sylw at y trefniadau gweinyddu wrth greu Pwyllgor Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gyda'r Cylch Gorchwyl a nodir yn Atodiad1;**
- **y bydd pwerau'r pwyllgorau sgriwtini lleol o dan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn cael eu cadw;**
- **y bydd y rhai a enwebir i'r Pwyllgor Trosolwg a Sgriwtini ar y Cyd o Gyngor Sir Ynys Môn yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol Cyngor Sir Ynys Môn yn hytrach nag aelodaeth y Cynghorau Cyfansoddol gyda'i gilydd;**
- **y bydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Trosolwg a Sgriwtini ar y Cyd yn cael ei darparu gan y CBC yn unol â'r Cylch Gorchwyl.**

*(Bu i'r Cynghorydd Kenneth P Hughes ymatal ei bleidlais)*

## 12. DATGANIAD POLISI TÂL 2025

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid i'r Cyngor ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2024/2025.**

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd 24/25

## Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol ar gyfer 24/25. Mae'r themâu yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu fy mlaenoriaethau wrth gael fy ethol yn Arweinydd ym mis Medi y llynedd ac yn cyd-fynd gyda 6 amcan strategol y Cyngor sydd wedi eu nodi yng Nghynllun y Cyngor 2023 – 2028.

Mae'r cynnydd a nodir yn yr adroddiad hwn yn arwydd o arweiniad fy nghyd-aelodau, ymroddiad a gwaith caled staff y Cyngor a chydweithrediad cymunedau'r Ynys a rhanddeiliaid allweddol. Mae fy niolch yn fawr iddynt i gyd.

Llwyddwyd i sicrhau cynnydd er gwaethaf sefyllfa ariannol heriol iawn eto eleni. Bu'n rhaid goresgyn bwlch ariannol sylweddol ac fel mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi canolbwyntio ar geisio sicrhau cydbwysedd teg rhwng amddiffyn gwasanaethau allweddol, toriadau i rhai gwasanaethau a codi'r Dreth Gyngor. O dan yr amgylchiadau heriol hyn, rwy'n hynod falch o'r gwaith da ac arloesol mae'r Cyngor yn ei wneud i amddiffyn a chefnogi trigolion a chymunedau lleol.

## Addysg

**Datblygiadau Newydd**
Mae wedi bod yn flwyddyn o newid yn y byd addysg, gyda threfniadau ar waith i fewnoli consortia Gwasanaethau Gwella Ysgolion rhanbarthol. Yn lleol rydym wedi gweld newid o ran penaethiaid newydd mewn 1 ysgol uwchradd a 3 ysgol gynradd, ac wedi croesawu Cyfarwyddwr newydd i'r Gwasanaeth Dysgu yn Mawrth 2025. Fe agorwyd Uned Graig Fach yn Ysgol y Graig ym Mehefin 2024 ac mae disgyblion, staff ac ymwelwyr yn hapus iawn gyda'r adeilad newydd. Braf yw gweld plant yr ynys yn derbyn cyfleon addysgu mewn adeiladau modern.

**RAAC**
Mae'r gwaith atgyweirio adeiladau yn cynnwys RAAC yn ysgolion Uwchradd Caergybi a David Hughes wedi cwblhau. Mae llawer o wasanaethau'r Cyngor wedi cydweithio yn effeithiol er mwyn sicrhau bod yr ysgolion yn parhau i ddarparu addysg a chefnogi dysgwyr. Mae ein diolch yn enfawr i'r Penaethiaid, staff, disgyblion a'u teuluoedd am gydweithio'n agos gyda ni fel Awdurdod ar adeg anodd iawn.

**Estyn**
Yn ystod 2024 roedd proffil Estyn Môn yn bositif. Mae'r gwaith arferol o sicrhau ansawdd addysgol a llesiant disgyblion yn parhau i gael ei gynnal gan ysgolion a hoffwn ddiolch i'r holl staff yn ein ysgolion ac yn y Gwasanaeth Dysgu am sicrhau'r llwyddiant.

**Grantiau**
Derbyniwyd grant gwerth £400,000 gan Chwaraeon Cymru ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a alluogodd y Cyngor i gynnal gwaith mewn sawl ysgol er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY i gynyddu hygyrchedd, hyrwyddo arfer cynhwysol a chefnogi dysgu a lles disgyblion. Llwyddwyd agor cae maint bychan 2G a cae maint bychan 3G gyda llifoleuadau yn Ysgol Uwchradd Bodedern.

**Ysgolion Bro**
Mae 3 swyddog wedi bod yn ffocysu eu gwaith eleni yn ardaloedd Caergybi, Llangefni ac Amlwch drwy wneud mwy o waith cymunedol. Gyda mwy o gyllideb y flwyddyn ariannol nesaf, mae bwriad cyllido swyddog ychwanegol.

**Ysgolion Iach**
Mae cynnydd wedi bod i'r tîm Swyddogion Ysgolion Iach. Mae'r tîm yn cefnogi ysgolion yr Ynys gyda unrhyw agwedd o iechyd a lles, gan gynnwys ymagwedd ysgol gyfan tuag at iechyd meddwl. Mae'r tîm hefyd yn arwain ar waith Urddas Mislif sydd wedi mynd o nerth i nerth ar draws yr ynys.

**Y Gymraeg mewn Addysg**
Rydym yn ein trydydd-flwyddyn o'r Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2022-32. Mae Ysgolion sydd wedi gofyn ac angen mwy o gefnogaeth gyda darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i gyd gyda Grwpiau Prosiect dan arweiniad yr uwch Rheolwr. Mae'r grwpiau yma yn cyfarfod pob hanner tymor ac yn cynnwys llywodraethwyr, Uwch swyddog, Arweinydd y Ganolfan Iaith, Swyddog Siarter iaith a Phenaethiaid. Mae 3 ysgol yn rhan o'r cynlluniau ar hyn o bryd.

**Canolfannau Iaith**
Mae'r Ganolfan iaith yn gwbl weithredol dros 2025-2026. Yn ystod tymor yr haf bydd aelodau'r Ganolfan yn ymweld â chyn-fyfyrwyr a chefnogaeth ol-ofal ar draws yr ynys. Yn ychwanegol bydd aelodau'r Ganolfan yn cynnal dosbarth trochi i flwyddyn 6 dalgylch Caergybi fel rhan o waith cefnogi Addysg Cyfrwng Gymraeg yn y dalgylch a sicrhau fod plant yn meddu a'r hyfedredd yn yr iaith cyn cychwyn yn yr uwchradd. Mae Uwch Swyddog wedi gweithio ar becyn i Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ddiweddar ac yn ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru, Siroedd Eraill a'r fforwm iaith i gydweithredu'n effeithiol.

**Oriel Môn**
Mae'r Oriel wedi bod yn llwyddiannus gyda cais achredu unwaith eto eleni ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fonitro a sicrhau eu bod yn llwyddo i gadw'r statws achrediad. Mae pecynnau addysgol a pecynnau digidol sydd ar gael i ysgolion wedi eu hadolygu, ac mae'r nifer o ymwelwyr i'r Oriel yn parhau i gynyddu gyda nifer o arddangosfeydd wedi bod yn boblogaidd iawn.

**Archifau**
Mae'r archifdy yn parhau i berfformio'n dda, ac mae adborth ymwelwyr o arolygon pellter blynyddol yr archifdy wedi bod yn gadarnhaol. Mae nifer yr ymwelwyr i'r archifdy yn parhau i gynyddu yn dilyn cyfnod ansicr ar ôl covid.

**Llyfrgelloedd**
Mae ffigurau defnydd wedi cynyddu eto eleni yn y llyfrgelloedd a hefyd ar y fan teithiol a'r gwasanaeth cartrefi. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu arlwy o gyfleoedd dysgu sydd ar gael i oedolion yn eu cymunedau. Cyflwynwyd cais

llwyddiannus am grant i'r Gronfa Ffyniant Cyffredin sydd wedi galluogi'r gwasanaeth i gynnal cyfres llwyddiannus o ddigwyddiadau a gweithgareddau i blant, pobl ifanc ac oedolion. Cynhaliwyd dros 150 o ddigwyddiadau gyda dros 4000 o bobl.
Fe wnaeth y Grant hefyd ein galluogi i adnewyddu cyfleuster storio yn Llyfrgell Llangefni i greu lle croesawgar y gellir ei ddefnyddio gan y gymuned a sefydliadau i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau. Cafodd 25 o ddigwyddiadau a gweithgareddau eu cynnal gyda 388 o gyfranogwyr.

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

**Uned Cefnogi Teuluoedd**
Mae Asesiad Digonolrwydd Chwarae wedi ei gwblhau a swydd drwy arian Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cryfhau cydlyniant ar draws y Cyngor a phartneriaid allanol. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru megis Dechrau'n Deg a Chymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu allan i'r Llys yn parhau i gefnogi ein teuluoedd bregus. Mae rhaglenni rhiantu ar gael i rieni a gofalwyr ar draws yr Ynys a nifer o staff y Cyngor a phartneriaid wedi derbyn hyfforddiant yn y rhaglen flaengar "Triple P" er mwyn cefnogi teuluoedd o'r cychwyn cyntaf. Rhaglenni gofal plant yn parhau i gefnogi rhieni gyda lleihau costau gofal plant a mynediad i waith, megis Y Cynnig Gofal a Gofal Plant 2 oed.

**Cartrefi Clyd**
Erbyn hyn rydym wedi buddsoddi mewn 4 cartref clyd ac yn buddsoddi mewn cynllun ysbaid er mwyn cefnogi gofalwyr. Mae'r unedau i gyd yn cael eu rheoli gan dîm bach o staff sy'n sicrhau y rhoddir gofal o'r ansawdd gorau i'r plant sy'n byw yno. Rydym bellach yn chwilio am ein Cartrefi Clyd nesaf ar Ynys Môn ac yn ceisio am fwy o arian grant i gyllido'r prosiectau.

**Dull Integredig Cefnogi Addysg Plant Mewn Gofal (PMG)**
Mae pob plentyn oedran ysgol (3-15 oed) yn cael asesiad "Motional" fel rhan o'u Cynllun Addysg Personol (CAP) lle mae posib mesur cynnydd yn erbyn dull sydd yn wybodus o drawma. Mae safon y CAP yn dda neu yn dda iawn gyda ymweliadau gwirio ansawdd yn digwydd yn dymhorol gyda syrjeri galw heibio i ysgolion. Dathlwyd diwedd cyfnod blwyddyn 11 ar gyfer ein plant gyda Prom llwyddiannus ac haeddiannol yn Chateau Rhianfa.

**Maethu Cymru**
Mae'r tîm yn parhau i weithio ar y cyd â Maethu Cymru ac awdurdodau lleol Cymru mewn perthynas â recriwtio a chadw gofalwyr maeth. Mae nifer o ddarpar ofalwyr maeth newydd yn y broses o asesu a gobeithio y byddant yn cael eu cymeradwyo yn ddiweddarach eleni.

**Rhyddhau Gorchmynion Gofal**
Mae'r Gwasanaeth wedi defnyddio Grant Llywodraeth Cymru i leihau nifer y plant sy'n destun gorchmynion gofal ac wedi'u rhoi gyda rhieni'n ddiogel. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o dros ugain o blant mewn gofal cyhoeddus dros gyfnod o ddeunaw mis.

**Gwasanaeth Ieuenctid & Ymgysylltu**
Mae'r ddarpariaeth Caffi Clwb Ieuenctid "Hive" wedi datblygu ymhellach gyda oddeutu 40 o bobl ifanc 14-16 oed yn mynychu yn wythnosol – hwn yn ychwanegol i'r clybiau ieuenctid arferol. Mae'r lleoliad wedi bod yn atyniad diogel gyda ffocws ar llesiant, datblygu sgiliau, datblygu perthnasau iach a chydweithio gyda phartneriaid lleol fel yr Heddlu. Yn ogystal mae

Gweithwyr Ieuenctid Ysgolion wedi datblygu rhaglen “Llwyddo” o fewn y maes llesiant ac iechyd meddwl – cwrs 12 wythnos wedi ei dargedu gyda achrediad Agored Cymru sydd yn gwneud defnydd o’r dull Virtual Reality hefyd. Mae’n cael ei gynnig ar draws y 5 Ysgol Uwchradd ac yn cyfrannu at fframwaith gymwysterau pobl ifanc.

**Rhaglen Newydd Grymuso Ieuenctid**
Mae rhaglen beilot yn Ysgol David Hughes yn gweithio gyda 8 o dysgwr 11-16 dros 12 wythnos. Mae'n gwricwlwm strwythuredig sydd wedi'i gynllunio i rymuso pobl ifanc â sgiliau bywyd hanfodol mewn gwytnwch, rheoleiddio, myfyrio, hyder, cymhelliant a datblygu eu deallusrwydd emosiynol yn unol â'n fframwaith trawma.

**Ynys Sy’n Wybodus o Drawma**
Mae 750 o unigolion ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ac arbenigol o dan y cynllun ac erbyn hyn mae 70% o rieni maeth yr awdurdod yn gymwysedig gyda’r Tystysgrif cyntaf ym Mhrydain yn cael ei ddatblygu a’i weithredu yn Ynys Môn. Cynhaliwyd y cwrs cymunedol cyntaf mewn Ynys Sy’n Wybodus o Drawma a mynychodd 27 o bartneriaethau allweddol.

**Datblygiad Proffesiynol Virtual Reality**
Mae’r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn pecyn hyfforddiant VR ar gyfer codi ymwybyddiaeth o trawma a hefyd meysydd penodol megis cyffuriau a phobl ifanc yn defnyddio cyllyll. Mae’r dull yma wedi profi yn llwyddiannus gyda 100 wedi mynychu ac sawl awdurdod wedi mynegi diddordeb. Mae 15 aelod o staff wedi eu uwch sgilio ar gyfer cyflwyno rhaglen am y 6 mis nesaf.

**Ymweliad Gwiriad Gwella – Gwasanaethau Oedolion**
Ym mis Medi 2024, cafwyd ymweliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Gwiriad Gwella, yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Hydref 2022. Roedd casgliadau’r ymweliad yn gadarnhaol:

1. Mae tîm arwain cryf yng ngwasanaethau oedolion Cyngor Sir Ynys Môn sydd wedi cyflwyno newidiadau cadarnhaol a'u rhoi ar waith.
2. Mae'r ymarferwyr yn disgrifio aelodau'r tîm arwain fel unigolion gweladwy, hygyrch a chefnogol.
3. Mae mwy o sefydlogrwydd yn y timau staff, ac ymhlith timau'r darparwyr cymorth cartref a chartrefi gofal.
4. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i elwa ar gymorth corfforaethol a gwleidyddol. Mae'n hanfodol bod hyn yn parhau, er mwyn sicrhau bod y cynnydd a wneir yn cael ei gynnal, a bod y meysydd y mae angen eu gwella ymhellach yn cael cefnogaeth ac adnoddau digonol.

**Gwasanaethau dydd**
Mae gwneud defnydd gwell o adnoddau cymunedol er mwyn annog integreiddio yn y gymuned yn flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth Anableddau Dysgu. Mae’r gwasanaeth wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio Hybiau Cymunedol, ac wedi cwblhau ymarferiad ymgysylltu yn ardal Caergybi. Mae’r adborth gan bawb a oedd yn bresennol wedi bod yn gadarnhaol. Mae pobl yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac mae hynny’n arwain at brofiadau gwell a mwy o ddewis a rheolaeth yn eu bywydau. Er mwyn gwireddu’r weledigaeth hon ar gyfer Gweithgareddau Dydd, mae’r awdurdod wedi cymeradwyo proses drawsnewid mewn perthynas â darpariaeth yn y gymuned, gan symud adnoddau o ganolfan Morswyn i hwyluso’r gwaith o ddatblygu adnoddau cymunedol ymhellach. Yn ogystal â hyn, rydym wedi buddsoddi mewn gwella’r ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys cyfleusterau awyr agored yn Gors Felen. Roedd hyn yn cynnwys datblygu mannau saff, a gardd synhwyraidd.

**Byw a chefnogaeth**
Mae gan y gwasanaeth gynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid a diweddaru opsiynau llety ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu drwy raglen o ddatblygiadau newydd. Drwy weithio cyfochr â'r Adran Dai a chymdeithasau tai lleol, rydym wedi medru buddsoddi mewn sawl cynllun ac yn parhau i baratoi cynlluniau er mwyn uwchraddio mwy o eiddo. Disgwylir y bydd y cynlluniau rydym wedi buddsoddi dros y 24 mis diwethaf mewn defnydd erbyn haf 2025.

**Dementia Actif Môn**
Mae'r prosiect hwn wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y 3 blynedd diwethaf, ac wedi creu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol a chymdeithasu ar gyfer grwpiau ac unigolion ar draws yr Ynys. Rydym erbyn hyn wedi buddsoddi mewn ail aelod o staff llawn amser er mwyn datblygu y gwasanaeth ymhellach ac i gyrraedd mwy o unigolion gan gynnwys ein cartrefi gofal a gwasanaethau dydd.

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**
Mae Môn Actif wedi buddsoddi dros £1miliwn yn ein cyfleusterau hamdden yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys gwaith ar Ganolfan Hamdden Plas Arthur i gwblhau gwaith cladio, ffenestri newydd, insiwleiddio, gwaith toi a gosod lloches beics er mwyn hyrwyddo teithio llesol. Yn ogystal gosodwyd llawr newydd yn y neuadd chwaraeon, ac fe'i hariannwyd yn bennaf gan grant cyfalaf Chwaraeon Cymru. Mae gwaith hefyd wedi cymryd lle yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch a Chaergybi. Cafodd Canolfan Hamdden Amlwch ffenestri newydd a goleuadau newydd LED i'r cae 3G. Cafwyd llawr newydd yn y swyddfa a goleuadau LED allanol yng Nghanolfan Hamdden Caergybi.

**Gwarchod y Cyhoedd**
Bu i Gwarchod y Cyhoedd gynnal sawl ymgyrch i dynnu fêps anghyfreithlon oddi ar y farchnad sy'n cyrraedd drwy borthladd Caergybi ac yn cael eu gwerthu yn ein siopau. Hyd yn hyn rydym wedi atal dros 55,000 o fêps anghyfreithlon a pheryglus rhag cyrraedd pobl Môn.
Mae'r tîm Gwarchod y Cyhoedd hefyd wedi ymweld â'n cymunedau ac ymgysylltu â'r trigolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o sgamiau ariannol sy'n cael effaith andwyol ar fywydau, safonau byw ac iechyd meddyliol. Gosodwyd 'blocwyr galwadau' mewn tai preswyl er mwyn arbed unigolion hŷn a bregus rhag derbyn galwadau ffôn niwsans a thwyllodrus.

## Economi

**Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)**
Yn ystod y flwyddyn dyrannodd y Cyngor £16miliwn o arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar brosiectau fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i gymunedau lleol. Mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol, dewiswyd 25 prosiect ar draws yr Ynys. Mae tua £3 miliwn hefyd wedi ei glustnodi er mwyn gwella sgiliau rhifedd oedolion, fel rhan o Raglen Lluosi Llywodraeth y DU. Rydym wedi gweld effaith ar unigolion a busnesau ar draws y sir.

- Mae bron i 400 o fusnesau, mentrau a sefydliadau wedi derbyn grantiau o'r cynllun a 631 wedi derbyn cymorth ychwanegol.
- Rydym wedi gweld gwella i tua 1,500m2 o lefydd gwyrdd, gwella cyfleusterau cyhoeddus, ac wedi plannu dros 5,000 o goed.
- Mae dros 1,000 o bobl hefyd wedi ennill cymwysterau newydd, gan agor drysau at gyfleoedd gwaith gwell.

**Rhaglen Adfywio Caergybi**
Mae Caergybi wedi elwa o wariant o £22.5m drwy Gronfa Adfywio Llywodraeth y DU. Mae'r gronfa wedi ariannu prosiectau fel yr estyniad i'r Ucheldre, adeilad yr Empire, adeiladau fel cyn fanc HSBC, ynghyd â nifer o welliannau yng Nghanol Tref a'r cabannau newydd ar Newry. Gallwn ymfalchïo o gyrraedd allbynnau uchelgeisiol ac effaith positif ar y Dref a'r gymuned. Bu ymgysylltu cryf a rheolaidd efo'r gymuned er mwyn rhoi cyfle iddynt leisio barn a chyfrannu at y datblygiadau.

**Gogledd yr Ynys**
Mae caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau ar gyfer 10 o Unedau busnes newydd yn Amlwch. Mae gwaith hefyd ar droed i ailwampio hen adeilad Morwrol y 'Marine Terminal' ym Mhorth Amlwch. Mae trafodaethau a threfniadau hefyd ar waith er mwyn sicrhau cyllid i ariannu ymyraethau a phrosiectau tu hwnt i 2025/26.

**Porthladd Rhydd**
Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn gyfle arbennig i wella economi Gogledd Cymru drwy ddenu mewnfuddsoddiad sylweddol i yrru gweithgarwch economaidd, gan ddarparu swyddi sgiliau uchel, â chyflogau uchel i'r gweithlu lleol. Bu i safleoedd Trethi Canolbarth Môn a Chaergybi gael eu dynodi ym mis Ionawr 2025 a gwaith sylweddol o ddymchwel ac adfer yn symud ymlaen ar safleoedd blaenorol Alwminiwm Môn yng Nghaergybi a 2-Sisters yn Llangefni. Wrth i'r gwaith ar y safleoedd ddatblygu bydd y Porthladd Rhydd yn parhau i sicrhau'r buddion mwyaf bosib i'r Ynys allu cymryd mantais yn llawn.

**Arfor**
Nod y rhaglen hon gan Llywodraeth Cymru yw cefnogi defnydd o'r Gymraeg ac mae bron i £1 miliwn wedi ei fuddsoddi mewn 30 o fusnesau lleol. Mae rhaglen wedi helpu creu 50 o swyddi a chyfrannu at datblygu'r economi a chryfhau'r Gymraeg ar yr Ynys.

**Canol Trefi**
Rydym wedi bod yn gweithredu Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn 2023-28 ac mae Cyllid Adfywio Llywodraeth Cymru wedi ei ddefnyddio i wella eiddo trefol mewn sawl lle ar draws yr Ynys.

- Mae 9 o gynghorau tref a chymuned wedi derbyn £250k ar gyfer prosiectau a digwyddiadau lleol.
- Mae 20 o brosiectau wedi derbyn grantiau gwella eiddo gwerth £1.5m yn cynnwys llenwi 11 eiddo gwag. 54 adeilad canol tref wedi eu peintio gan MonCF gyda chyllid SPF drwy'r Cyngor Sir.
- 82 grant busnes bach canol tref wedi ei roi gan MonCF gyda chyllid SPF drwy'r Cyngor Sir.

**Safle Wylfa**
Mae safle Wylfa bellach o dan berchnogaeth uniongyrchol Llywodraeth y DU ers Mawrth 2024. Mae disgwyl cadarnhad yn dilyn Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU ddiwedd yr Haf os bydd Wylfa wedi ei ddewis fel safle i dderbyn datblygiad Adweithyddion Modiwl Bach (SMR). Mae'r Cyngor wedi bod mewn cyswllt rheolaidd gyda'r Llywodraeth i holi am ddiweddariad ar y sefyllfa.

**Cadwraeth Natur**
Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu pwysigrwydd cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid eraill os ydym am sicrhau adferiad byd natur yn llwyddiannus. Bu cydweithio llwyddiannus gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Trwy ddefnyddio cyllid SPF (Y Gronfa Ffyniant Gyffredin)

Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (SLSP) a Cronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) a rydym wedi cyflawni gwaith adfer dolydd ar gynefinoedd arfordirol, plannu mwy na 6,000 o goed, rheoli rhostir a chyhoeddi cynllun rheoli rhostir newydd. Bu cydweithio hefyd gyda ffermwyr i gyflawni prosiectau waliau a gwrychoedd, a phrosiectau dal dŵr gan gynnwys Afon Wygyr.

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**
Mae'r tîm wedi helpu i gyflwyno ac ariannu amrywiaeth enfawr o ddigwyddiadau sy'n ailgysylltu pobl â byd natur. Mae pobl ifanc lleol wedi manteisio ar gyfleoedd ysgolion coedwig, digwyddiadau rhieni a phlant, digwyddiadau awyr dywyll a diwrnodau gwirfoddoli cadwraeth. Rydym hefyd wedi bod yn ffodus i weithio gyda phartneriaid i ddarparu 2 adnodd addysgol ar gyfer ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm Cymreig newydd gyda ffocws ar natur, newid hinsawdd, amaethyddiaeth ac ansawdd dŵr ymhlith pynciau eraill.

**Mynediad at Natur**
Mae dros £1m wedi'i fuddsoddi drwy'r rhaglen SPF i wella mynediad i rai o'n safleoedd allweddol ac i deithiau cerdded cylchol arfordirol fel y gall cymunedau fanteisio'n economaidd o Lwybr Arfordir Cymru. Cafodd llwybrau Gwarchodfa Natur Lleol Nant y Pandy, Llyn Maelog a Choed y Môr ym Mhorthaethwy eu gwella.

**Twristiaeth**
Bu ffocws eleni ar sicrhau rheolaeth dda o gyrchfannau. Aeth gwefan newydd Croeso Môn yn fyw ac mae wedi cael derbyniad da. Mae arwyddion arfordirol newydd yn cael eu cyflwyno ar ein safleoedd allweddol gyda ffocws ar ddiogelwch yn gysylltiedig â chanllawiau'r RNLI. Croesawyd dros 70 o longau yng Nghaergybi, ac rydym yn parhau i chwarae rhan weithredol i sicrhau bod yr Ynys, ei chymunedau a'i busnesau yn elwa o'r ymweliadau, ynghyd â rhoi profiadau gwerthfawr i'n hymwelwyr.

**Cynllunio**
Mae gwaith wedi cychwyn ar baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDL) newydd ar gyfer Ynys Môn. Y cam cyntaf o'r broses oedd paratoi a chytuno gyda Llywodraeth Cymru ar Gytundeb Cyflenwi sy'n amlinellu'r amserlen ar gyfer cwblhau pob cam o baratoi'r CDL. Mae'r gwaith ar yrru'r Cynllun yn ei flaen yn parhau, a'r broses Galw am Safleoedd yw'r garreg filltir fawr nesaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i dirfeddianwyr gyflwyno safleoedd i'w hystyried ar gyfer datblygiad yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â chyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun.

**Tai**

**Dyma rhai o ystadegau gwasanaeth tai y Cyngor am y flwyddyn:**
- 63 o dai gwag yn ôl i ddefnydd
- 826 o aelwydydd wedi cysylltu gyda'r Cyngor am eu bod dan fygythiad neu yn ddigartref
- £15.23m wedi ei wario ar adeiladu cartrefi ynni effeithlon newydd, gyda pherfformiad ynni gradd A, i leihau ein hôl troed carbon.
- £9.86m wedi ei wario ar uwchraddio stoc tai cyfredol yn cynnwys mesurau effeithiolrwydd ynni.

**Rhaglen Solar a Batri Storio:**

Mae gwaith wedi dechrau ar ddwy raglen waith ar raddfa fawr gyda chontract amnewid cegin a chontract i osod cyfleusterau Solar a Storio Batri dros y 5 mlynedd nesaf i eiddo perthnasol. Dyfarnwyd y contract, gwerth £15m, i gwmni lleol sydd wedi'i benodi i ymgymryd â'r gosodiadau ôl-weithredol i holl eiddo'r Stoc Tai lle bod hynny'n ymarferol.
I gychwyn, mae'r cytundeb yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd oddi ar y rhwydwaith nwy naturiol a dechreuodd y gwaith yn gynnar ym mis Ionawr 2025 yn ardal Gwalchmai gydag adborth cadarnhaol gan y trigolion hyd yma. Yn ystod 2025/26 bydd y rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar eiddo â pherfformiad ynni is, sydd â trydan, olew neu LPG fel eu prif ffynhonnell wresogi.

**Fflatiau Plas Alltran, Caergybi**
Cafodd gwaith ei wneud i ddiogelu'r adeilad rhestredig Gradd II adfeiliedig hwn ger porthladd Caergybi. Mae Plas Alltran wedi syrthio i gyflwr adfywio ers amser maith ac wedi bod yn destun ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Cadw a Llywodraeth Cymru i gyflawni'r prosiect. Y bwriad yw datblygu 4 fflat cymdeithasol fforddiadwy newydd, sy'n cynnwys pedwar fflat 1 ystafell wely.

**Datblygiadau Tai**
Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein heiddo i wella ansawdd cartrefi presennol yn ogystal â symud ymlaen gyda'n datblygiad o gartrefi newydd i gynyddu ein nifer o gartrefi ledled yr Ynys.
Yn ystod 2024/25 cwblhawyd datblygiad ar y safleoedd canlynol:-

- Cloch yr Eglwys, Ffordd Garreglwyd, Holyhead (8 Fflat).
- Llys Llwydiarth, (10 tŷ). Ymwelwyd â'r datblygiad hwn gan y Prif Weinidog yn ystod y flwyddyn.
- Ffordd Kyffin a Cilfach Cwta/Cilfach Clai, (10 tŷ).

**Gofal Ychwanegol yn Tyddyn Mostyn, Porthaethwy**
Bydd cyfleuster Gofal Ychwanegol Aethwy yn gyfleuster dementia-gyfeillgar 45 uned gydag 28 ystafell wely er mwyn gofal preswyl. Yn y cyfleuster bydd swyddfeydd y Tîm Adnoddau Cymunedol, arlwyo, cymorth a llety ategol. Mae'r prosiect wedi mynd trwy'r cam cynllunio cyn ymgeisio ac mae'n cael ei baratoi ar gyfer caniatâd cynllunio llawn.

**Rhaglen Amnewid Cegin:**
Ym mis Ionawr 2025 dechreuodd ein Rhaglen Amnewid Cegin i gydymffurfio gyda Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Mae'r contract hwn yn cynnwys adnewyddu ceginau presennol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfredol SATC. Mae'r rhaglen waith yn dilyn cylch bywyd ceginau presennol a osodwyd rhwng 2008 a 2013 fel rhan o gontract gwreiddiol SATC gyda gwaith wedi'i ganoli ar hyn o bryd yn ardal Llangefni.

**Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC 2023)**
Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein stoc dai drwy ailfodelu eiddo nad yw'n addas mwyach a gweithio tuag at gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023. Ers i'r cyhoeddiad gael ei wneud, rydym yn adolygu'r adnoddau a'r goblygiadau ariannol sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen 10 mlynedd hon. Mae'r gofynion newydd hyn yn gosod safonau uchelgeisiol gydag effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio y stoc dai.

**Newid Hinsawdd**

**Lleihau ôl troed carbon ein asedau**

Gosodwyd systemau gwres carbon isel (pympiau gwres ffynhonnell aer) ar draws ein asedau, gan gynnwys yn y Pencadlys. Rhagwelir bydd y gwaith yma'n arwain at lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon wrth i'r adeiladau drosi o danwyddau ffosil ar gyfer eu gofynion gwresogi a dŵr poeth. Yn ogystal, yn dilyn llwyddo denu grant sylweddol o dros £750k, mae'r gwaith o osod paneli solar yn meysydd parcio'r Pencadlys wedi cychwyn, a bydd y trydan y bydd yn cael ei gynhyrchu yn cael ei ddefnyddio i wefru cerbydau.

**Trawsnewid ein fflyd i gerbydau trydan**

Yn ystod y flwyddyn cafodd 13 o gerbydau trydan ychwanegol ei prynu, sy'n golygu fod 35 cerbyd trydan yn rhan o'r fflyd erbyn hyn. Mae gwaith sylweddol wedi bod i osod 34 o bwyntiau gwefru er defnydd cerbydau fflyd - 30 wrth y Pencadlys, 2 ym Mhlas Arthur a 2 ym Mlaen y Coed. Yn ogystal mae'r Gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff wedi cyd-weithio gyda'r gymuned yn ward Crigyll er mwyn treialu darparu cludiant cymunedol i gysylltu gyda'r prif ddarpariaeth bws.

**Economi cylchol**

Mae gwasanaeth gwastraff y Cyngor wedi bod yn cyd-weithio gyda Medrwn Môn a Hospis Dewi Sant i gynnig mwy o gyfleon i ail-ddefnyddio nwyddau fyddai fel arall yn cael eu taflu.

**Cymeradwyo Cynllun Strategol Rheoli Perygl Llifogydd**

Cymeradwywyd y cynllun hwn ym mis Mawrth 2025 yn dilyn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid. Bydd y cynllun yn rhoi sail i sut fydd y Cyngor yn ymateb i rhai o sgil effeithiau newid hinsawdd. Yn ogystal, mae 2 brosiect atal llifogydd wedi eu gwireddu yn ystod y flwyddyn, a dyluniad ar gyfer 2 safle arail wedi eu cwblhau a bydd rhain yn cael eu rhoi ar waith fel mae cyllid yn caniatáu.

**Ymateb i faterion argyfwng**

Bu swyddogion y Cyngor yn ymateb i sawl argyfwng dros y flwyddyn, gan gynnwys sgil effeithiau storm Darragh ac Eowyn ar ein ffyrdd ac adeiladau pan derbyniwyd dros 100 o alwadau. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo wedi parhau i gynnal ein adeiladau, ail-wynebu a chadw ffyrdd ar agor a chasglu gwastraff yn wythnosol.

## Yr Iaith Gymraeg

**Cryfhau statws y Gymraeg**

Cyfeiriodd adroddiad y llynedd at y flaenoriaeth amlwg a roddwyd i'r Gymraeg drwy ei sefydlu yn un o amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023 i 2028. Adeiladom ar y flaenoriaeth honno eleni trwy ddiweddaru ein polisi iaith Gymraeg. Mae'r polisi newydd yn ei gwneud yn gwbl glir i bawb sy'n delio neu'n rhan o'r cyngor y gallent dderbyn ein holl wasanaethau yn Gymraeg. Adlewyrcha'r camau breision sydd wedi eu cymryd gennym i gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg trwy egluro bod yr iaith yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd o weinyddiaeth y cyngor.

**Mwy o staff yn dysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg**

Diolch i bartneriaeth effeithiol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae mwy o'n staff nag erioed yn derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Ers i dîm y Gymraeg a'r tîm hyfforddi fynd ati i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i staff y Cyngor mae'r niferoedd sy'n dysgu wedi codi dros 200% o 15 yn 2021/22 i dros 80. Mae'r hyfforddiant at gael gan diwtoriaid penodol i'r cyngor ac yn cynnig cefnogaeth ar bob lefel, o sylfaen i ddechreuwyr pur i hyfforddiant sgiliau iaith i wella . Braf hefyd yw clywed gan gyd-aelodau'r cyngor sy'n dysgu ar y cyd efo'n swyddogion am y tro cyntaf.

**Cydnabyddiaeth cenedlaethol i'n harferion**

Ein strategaeth hybu'r Gymraeg oedd un o bynciau trafod cynhadledd flynyddol Cymdeithas Comisiynwyr Iaith y Byd yng Nghaerdydd ym mis Mai 2024. Cafodd ein swyddog iaith gyfle i annerch cynulleidfa ryngwladol a sôn am ein hymdrechion i gynyddu defnydd o Gymraeg ym Môn trwy ein system addysg, gwasanaethau ieuenctid, hamdden, gofal, cynllunio a sawl maes arall yr ydym yn gyfrifol amdanynt. Mae ein harferion mewn perthynas â'r iaith wedi eu cydnabod ers tro gan Gomisiynydd y Gymraeg fel esiamplau o arferion effeithiol y dylai sefydliadau eraill efelychu.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Mae cefnogaeth Fforwm Iaith Ynys Môn yn gryfder parhaus i ni fel cyngor. Bu eleni yn flwyddyn brysur arall i'r fforwm oedd yn dathlu degawd o fodolaeth ers cael ei sefydlu wreiddiol gan y cyngor yn 20214. Braf oedd gweld pabell lawn yn gwrando ar gyfraniadau gan rai o aelodau'r fforwm yn Sioe Môn ym mis Awst i nodi garreg filltir hon.

Mae swyddogion y cyngor yn arwain dau o is-grwpiau fforwm sy'n canolbwyntio ar addysg a'r defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Yn ogystal â chlywed am cyflawniadau grwpiau hyn, cafodd yr aelodau gyflwyniadau ar yr ystyriaeth o roddwn i'r Gymraeg o fewn gofal maeth a chynllunio gwald o thref eleni.

Fe wnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg, awdurdodau lleol ardal ARFOR (Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr), ac eraill i fodelu ein defnydd mewnol o'r iaith, ac aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i helpu'n gilydd recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i gynnal ein safon uchel o wasanaethau.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Y Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **20 Mai 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2024/25** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeiryddion y:**<br>1. **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>2. **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y ddau bwyllgor sgriwtini yn ystod 2024/25 a darparu trosolwg o'r rhaglen waith sgriwtini ar gyfer 2025/26** |
| **AELODAU PORTFFOLIO:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **CYFARWYDDWR / PENNAETH GWASANAETH:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru**<br>**07971167198** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Mae'n berthnasol i bob Aelod Sgriwtini** |

## 1. Argymhellion:

Gofynnir i'r Cyngor Llawn:

**A1** Gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini a Throsolwg ar gyfer 2024/25

**A2** Nodi'r cynnydd parhaus a wnaed o ran gweithredu ein taith Sgriwtini ac effaith hynny ar ymarfer

**A3** Penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2025 a Mai 2026.

## 2. Cefndir a Chyd-destun

**2.1** Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini yn cwmpasu gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini a'r tri phanel sgriwtini rhwng Mai 2024 a Mai 2025.

**2.2** Arweiniodd cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini y gwaith o ddatblygu'r blaen raglenni gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Mae blaen raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini'n cael eu cyflwyno i gyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a'u cyflwyno i'w cymeradwyo ym mhob cyfarfod o'r pwyllgorau sgriwtini.

**2.3** Er bod effaith a gwerth gweithgareddau sgriwtini yn parhau i gyfrannu'n ystyrlon at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor trwy gefnogi a herio, comisiynodd yr Awdurdod Lleol adolygiad allanol o'n trefniadau sgriwtini a chwblhawyd yr adolygiad o fewn cyd-

destun ein fframwaith llywodraethu corfforaethol lleol. Mae'r argymhellion wedi dylanwadu ar ein rhaglen ar gyfer datblygu sgriwtini yn y dyfodol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Tîm Arweinyddiaeth.

### 3. Rôl y Pencampwr Sgriwtini

**3.1** Mae rôl y Pencampwr Sgriwtini yn un pwysig o ran hyrwyddo'r swyddogaeth drosolwg a sgriwtini o fewn y Cyngor ac ymysg partneriaid yr Awdurdod hefyd. Nid yw'n rôl orfodol ac nid yw'r Pencampwr yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol. Ystyrir bod y rôl yn allweddol o ran dangos bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau fod Sgriwtini yn caniatáu i Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith gyfrannu i'r graddau mwyaf posib at berfformiad cyffredinol ac iechyd corfforaethol y sefydliad.

**3.2** Ar 14 Mai 2015, penderfynodd y Cyngor Llawn y dylai cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini gyflawni rôl y Pencampwr bob yn ail flwyddyn. Felly, dylid penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini dynodedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2024/25 |

# Adroddiad Blynyddol

# Trosolwg a Sgriwtini 2024-25

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Cyd-destun |
| 3 | Datblygu a Chefnogi Aelodau |
| 4 | Themâu Lleol Allweddol ar gyfer Sgriwtini |
| 5 | Asesu Effaith Sgriwtini |
| 6 | Edrych Ymlaen at 2025/26 |
| 7 | Cysylltu â Sgriwtini |

| ATODIADAU | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Beth yw trosolwg a sgriwtini? |
| Atodiad 2 | Cylch gorchwyl ac aelodaeth ein Pwyllgorau Sgriwtini |
| Atodiad 3 | Gweledigaeth ar gyfer Cyflawni Sgriwtini Effeithiol o fewn y Cyngor |
| Atodiad 4 | Protocol Pwyllgor Gwaith - Sgriwtini |

# 1. RHAGAIR

## Y Cynghorydd Douglas Massie Fowlie

- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2024/25**
- **Pencampwr Sgriwtini → 2024/25**



Pleser yw cyflwyno trosolwg o waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod y 12 mis diwethaf. Trafodir cwmpas gwaith y Pwyllgor yn yr adroddiad hwn a theg yw nodi fod y llwyth gwaith yn parhau i fod yn sylweddol ac yn amrywiol. Cynhaliwyd cyfanswm o 10 cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddinesig:

- **Gosod cyllideb flynyddol 2025/26** - un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cyfrannu at broses gosod cyllideb flynyddol y Cyngor. Mae hyn yn elfen holl bwysig o'n trefniadau llywodraethu corfforaethol, ac mae'n cael effaith bellgyrhaeddol ar bob maes gwasanaeth o fewn y Cyngor, yn ogystal ag ar y cyhoedd. Ystyriodd y Pwyllgor y cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb a'r gyllideb ddrafft derfynol ar gyfer 2025/26 ac roedd cyfraniad y Panel Sgriwtini Cyllid yn sylweddol eto eleni - gyda'r Panel yn craffu'n fanwl ar gynigion y gyllideb refeniw a chyfalaf ar ran y Pwyllgor Sgriwtini.

- **Cynllun y Cyngor: 2023-2028** - Bu i Aelodau graffu ar nifer o gynlluniau strategol allweddol ac o'u gweithredu byddant yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wireddu 6 amcan strategol allweddol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Craffodd y Pwyllgor ar y cynlluniau canlynol:
  - Cynllun Cyflawni Blynyddol: 2024/25
  - Hunanasesiad Corfforaethol Drafft 2024
  - Cynllun Strategol Môn Actif
  - Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2024
  - Cynllun Strategol Caffael a'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol Newydd
  - Cynllun Strategol Rheoli Perygl Llifogydd

  Argymhellodd y Pwyllgor y dylid mabwysiadu'r cynlluniau strategol hyn, gan ddarparu cyfeiriad eglur ar gyfer blaenoriaethau strategol y Cyngor yn ystod cyfnod o bum mlynedd.

- **Monitro Perfformiad Chwarterol** - bu'r Cyngor yn monitro perfformiad bob chwarter trwy gydol 2024/25, gan ddefnyddio'r cerdyn sgorio corfforaethol sy'n adrodd ar nifer o ddangosyddion ar holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r cerdyn sgorio'n parhau i ddatblygu fel dull effeithiol i Aelodau Sgriwtini graffu ar berfformiad a data. Sefydlodd y Pwyllgor Sgriwtini Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini yn ystod 2024 er mwyn archwilio perfformiad un o'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA), sef DPA 29 (nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)), gyda'r bwriad o wella perfformiad. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ganfyddiadau'r Panel ym mis Mehefin 2024 fel catalydd ar gyfer gwella perfformiad o fewn y maes gwasanaeth hwn.

- Roedd ein gwaith fel Pwyllgor hefyd yn cynnwys monitro a chraffu ar yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2023/24. Dyma elfen greiddiol arall o waith y Pwyllgor Sgriwtini.

- **Uchelgais Gogledd Cymru** - Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiadau monitro chwarterol a chodwyd cwestiynau perthnasol ynglŷn â chynnydd prosiectau sydd ar y gweill - tasg hanfodol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd i Ogledd Cymru, ac Ynys Môn yn benodol. Er enghraifft, y mesurau lliniaru er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw oedi, a sut fydd y risg bod prosiectau unigol yn gorwario yn cael ei reoli'n effeithiol.

- **Gwasanaethau Tai -** Craffodd y Pwyllgor ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2025-55 sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer datblygu a chynnal a chadw stoc dai cyngor yr Awdurdod. Canolbwyntiodd yr Aelodau ar y themâu canlynol yn benodol - aliniad â blaenoriaethau strategol ehangach y Cyngor (Cynllun y Cyngor: 2023-2028); fforddiadwyedd y rhaglen ehangu er mwyn cynyddu stoc dai'r Awdurdod Lleol; pa mor debygol yw'r flaenoriaeth o gynnal a gweithio tuag at Safon Ansawdd Tai Cymru II 2023 o gael ei chyflawni; y risgiau'n gysylltiedig â'r angen am gapasiti mewnol ac allanol digonol i gyflawni'r cynlluniau. Argymhellodd y Pwyllgor y cynllun busnes ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol -** yn yr Hydref, craffodd Aelodau ar Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Rhan 9): 2023/24. Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed trwy gydweithio rhwng iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn cynorthwyo i gefnogi cymunedau gwydn, yn ogystal â sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chymorth. Mae hyn yn alinio â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, sef 'Gofal Cymdeithasol a Llesiant - darparu'r cymorth cywir yn uniongyrchol ar yr adeg gywir'.

- Yn olaf, ym mis Hydref adolygodd y Pwyllgor Lythyr Gwirio a Chynllun Gweithredu Gwella Gwasanaethau Oedolion: Arolygiaeth Gofal Cymru. Ailymwelodd Aelodau â'r ffrwd waith hon ym mis Ebrill 2025 er mwyn adolygu cynnydd. Bydd yr adroddiad yn cynorthwyo i lunio gwelliannau pellach mewn gwasanaethau yn y Gwasanaethau Oedolion, yn unol â blaenoriaethau lleol.

  I gloi, rydw i'n cydnabod gwaith y Paneli Sgriwtini Cyllid a Gwasanaethau Cymdeithasol a hoffwn ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor a swyddogion a fu'n cynorthwyo yn ystod 2024/25. Hoffwn fynegi fy niolch i Swyddogion y Tîm Sgriwtini am eu cymorth parhaus. Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Cynghorydd Dyfed Wyn Jones a'r Cynghorydd Sonia Williams am eu cefnogaeth fel Is-gadeiryddion yn ystod y 12 mis diwethaf.

Y Cynghorydd Douglas Massie Fowlie
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)**

## Y Cynghorydd Dylan Rees

- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2024/25**



Pleser yw cyflwyno trosolwg o waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystod y 12 mis diwethaf.

Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion ystyriol ac effeithiol i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â nifer o faterion critigol a meysydd gwasanaeth, yn ogystal ag ar weithgareddau partneriaethau strategol yr Awdurdod.

- **Yr Iaith Gymraeg** - ym mis Mehefin edrychodd y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ar un o chwe amcan strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028, sef yr Iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth, ein diwylliant a'n treftadaeth ac mae'n gyfrifoldeb arnom i sicrhau fod yr iaith yn parhau i ddatblygu a ffynnu. Craffodd yr Aelodau ar y meysydd a ganlyn yn benodol:
  - I. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg: 2023/24
  - II. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2023/24 - Mesur Cynnydd
  - III. Polisi Iaith Gymraeg Diwygiedig

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** - Croesawodd y Pwyllgor Sgriwtini Gadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024. Croesawyd cynrychiolwyr o Archwilio Cymru hefyd er mwyn trafod adroddiad diweddar ar Ofal Brys ac Argyfwng - llif allan o ysbytai yn rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd y cyfarfod yn llwyfan ar gyfer trafodaeth gynhyrchiol ac adeiladol gyda'r Bwrdd Iechyd, a chanolbwyntiwyd ar feysydd cydweithio allweddol, gan gynnwys:

  ✓ Rhaglen Wella'r Bwrdd Iechyd - trosolwg lefel uchel
  ✓ Gwytnwch Gwasanaethau Clinigol Cymunedol ar Ynys Môn
  ✓ Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau cychwynnol a chwestiynau atodol perthnasol gan arwain at graffu'n effeithiol ar un o bartneriaid strategol allweddol yr Awdurdod Lleol. Arweiniodd hyn at ganlyniad gwirioneddol: mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini bob blwyddyn. Gwneir trefniadau hefyd i gynnal sesiwn friffio neu fforwm, gan ddod â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd ac Aelodau Etholedig at ei gilydd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Aelodau rannu profiadau a phryderon eu hetholwyr ynglŷn â darparu gofal iechyd.

- **Y Gwasanaethau Brys -** Ym mis Gorffennaf 2024, croesawodd y Pwyllgor Sgriwtini gynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Roedd y cyfarfod yn annog trafodaethau a chraffu cynhyrchiol a chanolbwyntiwyd ar y meysydd allweddol canlynol:
  ✓Y ddarpariaeth gwasanaeth presennol ar Ynys Môn;
  ✓Gwytnwch, heriau a fforddiadwyedd y model cyflawni gwasanaeth cyfredol ar

Ynys Môn;
✓Cydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau perthnasol i'r ddau wasanaeth argyfwng ynglŷn ag amseroedd ymateb mewn ardaloedd gwledig o Fôn, gan amlygu y gallai bywydau fod mewn perygl gan nad yw'r Gwasanaeth Tân a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gallu ymateb yn ddigon cyflym. Roedd y cyfarfod yn nodi ymrwymiad parhaus i gryfhau'r bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a'r Gwasanaethau Brys, ac mae'n fwriad gwahodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini bob blwyddyn.

- **Partneriaethau Strategol** - Gwahoddodd y Pwyllgor Sgriwtini'r partneriaid allweddol canlynol hefyd i annerch y Pwyllgor yn ystod y 12 mis diwethaf:
  I. Cyngor Ar Bopeth Ynys Môn
  II. Môn CF
  III. Menter Môn
  IV. Medrwn Môn

Mae craffu ar waith y partneriaid sy'n cael eu hariannu gennym yn hanfodol er mwyn sicrhau aliniad â Chynllun y Cyngor 2023-2028 a'r dirwedd partneriaethau rhanbarthol. Archwiliwyd y meysydd allweddol canlynol gan yr Aelodau:
✓Pwrpas, rôl a blaenoriaethau'r sefydliad
✓Cyllidebau (arian craidd ac arian grant) a strwythur staffio
✓Partneriaid - eu cydweithredwyr
✓Natur cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn
✓Allbynnau a chanlyniadau a grëwyd ar gyfer pobl a chymunedau ledled yr Ynys
✓Cyfleoedd, heriau a risgiau yn y dyfodol.

- **Cynllun y Cyngor: 2023-2028** - Craffodd yr Aelodau ar nifer o gynlluniau strategol a byddant, o'u gweithredu, yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wireddu 6 amcan strategol allweddol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. I'r perwyl hwn, craffodd y Pwyllgor Sgriwtini ar y cynlluniau a'r adroddiadau canlynol -
  I. Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion
  II. Adroddiad Diogelu Corfforaethol
  III. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb
  IV. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd** - Mae'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Bwrdd, sydd yn bartneriaeth rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys craffu ar gyflawni'r Cynllun Llesiant, trefniadau llywodraethu a'r Adroddiad Blynyddol. Yn ystod blwyddyn ddinesig 2024/25, ystyriodd yr Aelodau adroddiad blynyddol 2023/24 y Bwrdd yn ofalus a gwelwyd enghreifftiau o waith sgriwtini o ansawdd gydag Aelodau'n gofyn beth yw lle'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y strwythurau partneriaeth rhanbarthol a sut mae manteisio i'r eithaf ar gydweithio er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion.

- **Sgriwtini Addysg** - Ychwanegodd yr Aelodau werth trwy graffu ar feysydd allweddol gwasanaethau addysg ar Ynys Môn ac edrychodd y Panel Sgriwtini Addysg yn fanwl ar rai meysydd blaenoriaeth -

  I. Ysgolion mewn Categori, Dilyniant Estyn neu'n Derbyn Cefnogaeth Ychwanegol
  II. Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn 2023/24

III. Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Ynys Môn a Gwynedd

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn am safonau mewn ysgolion ar Ynys Môn, gan ddarparu sicrwydd fod mesurau gwella ar waith ar gyfer ysgolion y mae pryderon yn eu cylch, yn ogystal â chefnogaeth briodol.

Mae'r crynodeb uchod yn amlygu cyfraniad y Panel Sgriwtini at benderfyniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r broses sgriwtini'n hanfodol ar gyfer llywodraethiant corfforaethol y Cyngor, gan ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, herio'n adeiladol a sicrhau mewnbwn y cyhoedd. Mae'r Protocol Siarad Cyhoeddus yn gosod proses ffurfiol i'r cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i aelodau'r Panel Sgriwtni Partneriaeth ac Adfywio a'r Panel Sgriwtini Addysg am eu cydymdrechion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu hymroddiad, eu cyfraniadau gwerthfawr a'u hymrwymiad wedi bod yn hanfodol wrth hyrwyddo gwaith y Pwyllgor, gan wneud llawer i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun y Cyngor a chynnal safonau uchel ein gwasanaethau cyhoeddus.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i fy Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym Owen Jones, am y gefnogaeth amhrisiadwy a gefais ganddo.


**Y Cynghorydd Dylan Rees**
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)**

# 2. CYD-DESTUN

**2.1** Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cyflwyno llwyddiannau yn ystod blwyddyn ddinesig 2024/25 ac mae'n dangos sut y llwyddodd Sgriwtini ar Ynys Môn i ddylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau. Mae Sgriwtini ar Ynys Môn yn cael ei gyflawni trwy ddau Bwyllgor Sgriwtini, sy'n cynnwys Cynghorwyr etholedig lleol ac aelodau cyfetholedig, a 3 Phanel Sgriwtini. Trwy ddarparu rhaglen lawn o gyfarfodydd ffurfiol, mae llais Sgriwtini'n parhau i fod yn gryf o fewn yr Awdurdod Lleol. Er hynny, rydym yn dymuno cyflawni mwy a sicrhau ein bod yn clywed safbwyntiau a phrofiadau ein cymunedau lleol ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella. Mae ymgysylltu â dinasyddion a chyfranogiad dinasyddion yn un o'r thema datblygu y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod 2025/26.

**2.2** Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Eu prif bwrpas yw dal y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliannau, bod yn gyfaill beirniadol, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau. Mae crynodeb o'r cyd-destun polisi cenedlaethol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

Mae ein strwythur lleol yn cynnwys dau bwyllgor sgriwtini a thri phanel:




Mae cylch gorchwyl ac aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini yn cael eu crynhoi yn **ATODIAD 2**.

**2.3** Cyfarfu'r ddau Bwyllgor Sgriwtini yn rheolaidd yn ystod 2024/25 a chwblhawyd y gwaith sgriwtini a flaenoriaethwyd. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu'n llwyddiannus, gan sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth, yn unol â Chynllun y Cyngor 2023-2028. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi craffu ar rai o'r partneriaethau strategol allweddol a chydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion statudol.

# 3. DATBLYGU A CHEFNOGI AELODAU

Yn ystod 2024/25, mae'r meysydd datblygu a chefnogi wedi canolbwyntio ar y mewnbynnau canlynol:

i. ar gyfer unigolion sy'n newydd i'w rôl (Aelodau Cyfetholedig a swyddogion cefnogi Sgriwtini gan Aelodau)
ii. parhau i ganolbwyntio ar dechnoleg (uwchsgilio Aelodau)
iii. hyfforddiant datblygu ar gyfer cadeiryddion ac is-gadeiryddion sgriwtini, gan ganolbwyntio ar sgiliau arweinyddiaeth allweddol, arddangos effaith a strategaethau cwestiynu effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant pwrpasol ar gyfer cadeirydd ac is-gadeirydd y Panel Cyllid.

- Mae ein rhaglen hyfforddi a datblygu Aelodau'n parhau ac mae'n darparu cyfleoedd i hunanarfarnu effaith gwaith sgriwtini ar ein trefniadau llywodraethu corfforaethol.

- Byddwn yn adolygu ein rhaglen hyfforddi a datblygu Aelodau yn barhaus er mwyn ymateb yn llawn i negeseuon allweddol yr adolygiad o'n trefniadau sgriwtini a gynhaliwyd yn ddiweddar. Bydd hyn yn sicrhau fod yr amodau'n cael eu creu ar gyfer gwelliant parhaus a chraffu cadarn gan Aelodau Etholedig. Bydd ein cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod felly'n canolbwyntio ar gefnogi ein cynllun gwella sgriwtini.

- Sgriwtini ar sail ehangach - mae dull ehangach o graffu gan Aelodau wedi'i ddatblygu ymhellach a'i atgyfnerthu yn ystod 2024/25 trwy:
  i. flaen gynllunio effeithiol er mwyn sicrhau fod pynciau a drafodwyd mewn sesiynau briffio Aelodau, panelau sgriwtini a chyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini yn alinio â'i gilydd.
  ii. sicrhau eglurder ynglŷn â rôl Aelodau ar fyrddau rhaglen corfforaethol a sicrhau fod adroddiadau cadarn, amserol a lefel uchel yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau sgriwtini, gan uchafu llithriadau yn ôl y gofyn.
  iii. datblygu ehangder y pynciau a drafodir yn y sesiynau briffio Aelodau misol er mwyn cefnogi Sgriwtini a sicrhau fod gwybodaeth ar gael i Aelodau ynglŷn â phynciau strategol a thrawsnewid allweddol.

# 4. THEMÂU LLEOL ALLWEDDOL AR GYFER SGRIWTINI

### 4.1 Themâu Allweddol

Mae nifer o themâu allweddol yn sylfaen i'n ffrydiau gwaith sgriwtini lleol (maent yn cael eu crynhoi isod), er mwyn darparu fframwaith cadarn i:

- Egluro rôl a chyfraniad Sgrwtini at drefniadau llywodraethu'r Cyngor.
- Nodi'r gweithredoedd sy'n ofynnol yn y tymor byr a chanolig er mwyn gwella Sgriwtini ymhellach yng nghyd-destun gofynion deddfwriaethol presennol.

**THEMÂU LLEOL ALLWEDDOL AR GYFER SGRIWTINI**

Atgyfnerthu dull Sgriwtini "Cyngor cyfan".

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Sgriwtini

Gwella ymgysylltu â'r cyhoedd yn ein gwaith Sgriwtini

Gwella effaith Sgriwtini

Datblygu capasiti a galluoedd ar gyfer Sgriwtini effeithiol

# 5. ASESU EFFAITH SGRIWTINI

### 5.1 MESUR ALLBYNNAU

Cyflawnodd Sgriwtini nifer sylweddol o **allbynnau** yn ystod y flwyddyn ddinesig ddiwethaf a byddant, i raddau, yn ein cynorthwyo i asesu effaith lleol Sgriwtini:

**5.1.1 Cyfarfodydd Pwyllgor** - cynhaliwyd cyfanswm o 21 cyfarfod sgriwtini yn ystod 2024/25:

| **Pwyllgor** | **Nifer Cyfarfodydd a Gynhaliwyd** |
|---|---|
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | **10** |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | **11** |

Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau fod cadeiryddion y pwyllgorau sgriwtini'n darparu adborth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â materion a ystyriwyd gan y ddau bwyllgor.

**5.1.2 Cyfarfodydd Paneli Sgriwtini** - cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r 3 phanel sgriwtini yn ystod y 12 mis diwethaf:

| Panel | Nifer Cyfarfodydd a Gynhaliwyd |
|---|---|
| Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | **4** |
| Panel Sgriwtini Cyllid | **6** |
| Panel Sgriwtini Addysg | **10** |

Mae'r paneli hyn wedi'u hymgorffori mewn ymarfer trwy:

- Roi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i gefnogi pob panel gan sicrhau ffocws / cylch gorchwyl a rhaglen waith eglur ar gyfer pob panel
- Cyflwyno proses adrodd / uchafu, gan sicrhau fod adroddiadau ar waith y paneli sgriwtini'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r ddau Riant Bwyllgor ac mae Cadeiryddion y Paneli'n cynnig argymhellion os yw'n briodol.
- Sicrhau cyflymder addas ar gyfer gwaith y paneli sydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol, yn ogystal â chwblhau gwaith craffu manwl ar bynciau holl bwysig y Cyngor.

**5.1.3 Argymhellion Sgriwtini -** Pwrpas Sgriwtini yw dal i gyfrif a gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

O edrych ar waith Sgriwtini gan Aelodau Lleol yn ystod 2024/25, boed mewn cyfarfodydd pwyllgor cyhoeddus ffurfiol, paneli sgriwtini llai neu grwpiau tasg a gorffen, cyflwynodd Sgriwtini y nifer canlynol o argymhellion….

**4** Argymhellion wedi'u gwneud mewn Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini

**30** Argymhelliad wedi'u gwneud i'r Pwyllgor Gwaith

**58** Gweithred ychwanegol a gynigwyd mewn Cyfarfodydd Sgriwtini

Mae Sgriwtini felly'n darparu argymhellion ystyrlon sy'n ychwanegu gwerth at ein proses gwneud penderfyniadau ac maent wedi arwain at newidiadau cadarnhaol.

### 5.1.4 Argymhelliad Sgriwtini - Esiampl Achos

Ym mis Tachwedd 2024, mynychodd Uwch gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio er mwyn ystyried gwaith partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol. Yn dilyn trafodaethau a chwestiynau craffu cadarn cytunwyd ar argymhelliad allweddol oedd yn dangos bod sgriwtini yn ychwanegu gwerth a gyrru newid cadarnhaol:

**Argymhelliad:**

**"Bod trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal sesiwn friffio/fforwm gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd ac Aelodau Etholedig er mwyn caniatáu i Aelodau fynegi profiadau a phryderon eu hetholwyr mewn perthynas â darparu gofal iechyd."**




GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**5.1.5 Blaen raglenni gwaith** - mae trefniadau sydd wedi'u hen sefydlu ar waith ar gyfer llunio blaen raglenni gwaith fel sylfaen i waith y ddau bwyllgor sgriwtini. Mae'r rhaglenni hyn yn adnodd gwerthfawr er mwyn cynorthwyo Aelodau pwyllgorau sgriwtini i flaenoriaethu eu gwaith a chânt eu trafod yn rheolaidd gyda'r Tîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Mae'r ddau bwyllgor a'r tri phanel yn adolygu cynnwys eu blaen raglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol a'u bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau blaen gynllunio lleol yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar:

- **i.** Agweddau strategol
- **ii.** Ymgysylltu â dinasyddion / rhanddeiliaid eraill a'r canlyniadau
- **iii.** Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-2028
- **iv.** Risgiau
- **v.** Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio
- **vi.** Materion sydd ar flaen raglen waith Pwyllgor Gwaith

**5.1.6 Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini -** Mae'r fforwm hwn wedi'i hen sefydlu ac mae'n parhau i gyfarfod yn rheolaidd. Ystyrir bod y Fforwm yn ddull pwysig o gynnal trosolwg o raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini a thrafod blaenoriaethau gyda Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini. Y Fforwm sydd bennaf gyfrifol hefyd am ddatblygu'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini o fewn y Cyngor a'i welliant parhaus. Mae rôl y Fforwm wedi datblygu hefyd i gynnwys sgyrsiau rhwng y Pwyllgor Gwaith (yr Arweinydd), Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Tîm Arweinyddiaeth (Prif Weithredwr) er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng y rhaglenni gwaith a holl feysydd gwaith yr Awdurdod.

**5.1.7 "Cau'r Cylch Sgriwtini" -** trwy fod â threfniadau cadarn ar waith i:

**i.** Adrodd ar gynnydd neu uchafu materion o:

- Baneli Sgriwtini i riant bwyllgorau
- Pwyllgorau Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith

**ii.** Galluogi ac annog Aelodau Sgriwtini i ddadansoddi eu hunain a myfyrio er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ymhellach, neu feysydd i ganolbwyntio arnynt.

**5.1.8 Sgriwtini a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** - datblygu rôl Sgriwtini trwy:

- Sicrhau fod Aelodau'n canolbwyntio ar y 5 ffordd o weithio wrth lunio cwestiynau,[1] a chyflwyno templed adroddiad sgriwtini diwygiedig sydd â llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ganolog iddo


[1] Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth mewn sesiynau briffio a sesiynau datblygu Aelodau.

- Adolygu cynnydd a wnaed wrth ddatblygu rôl sgriwtini yn erbyn arfer orau
- Sefydlu fframwaith i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau allweddol eraill.

### 5.1.9 Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Dinasyddion a Rhanddeiliaid eraill â Sgriwtini

- Mae sgriwtini'n fodd i glywed safbwyntiau trigolion, cymunedau lleol, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid arwyddocaol eraill fel rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod Lleol, gan ychwanegu gwerth at ddemocratiaeth.



Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd trwy:

- Fod â Phrotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini fel elfen allweddol o'n trefniadau llywodraethu corfforaethol
- Cyhoeddi blaen raglen waith y ddau Bwyllgor ar wefan y Cyngor er mwyn i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r gwaith sydd ar y gweill gennym a chyfleoedd i dderbyn cyfraniadau ehangach
- Gwahodd partneriaid allweddol i gyfrannu mewn cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn ehangu ein dealltwriaeth, llywio trafodaethau o fewn y Cyngor ac ychwanegu gwerth at ein gwaith partneriaeth lleol
- Mae gennym aelodau cyfetholedig ar ein Pwyllgorau Sgriwtini sy'n cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig a rhiant lywodraethwyr
- Strategaethau cwestiynu sy'n cynnwys cwestiynau o ddiddordeb i'r cyhoedd
- Ymweliadau safle â gwasanaethau lleol er mwyn arsylwi gwasanaethau rheng flaen (Paneli Sgriwtini)
- Sicrhau tryloywder trwy weddarlledu cyfarfodydd Pwyllgor i'r cyhoedd eu gwylio
- Hyrwyddo ein cyfarfodydd Pwyllgor ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog ymgysylltu
- Pwynt cyswllt penodol ar gyfer Sgriwtini trwy system CRM y Cyngor[2] gan ddarparu pwynt cyswllt hygyrch i'r cyhoedd sy'n ymwneud yn benodol â'r broses ddemocrataidd

---

[2] System Reoli Cysylltiadau Cwsmer (CRM)

- Mae craffu ar Bartneriaethau'n darparu fforwm ar gyfer herio'n adeiladol a chyfle i ddysgu a hunan-fyfyrio trwy:




**Enghreifftiau o'n gwaith gyda rhanddeiliaid yn ystod 2024/25:**

**TACLO TLODI**
- CAB Ynys Môn
- Môn CF
- Medrwn Môn

**IECHYD**
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Archwilio Cymru


**Y GWASANAETHAU BRYS**
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Gwella ein Hymgysylltu** - Mae Sgriwtini'n ymwneud â gyrru gwelliannau yng ngwasanaethau'r Cyngor ac rydym yn dymuno ymgysylltu mwy â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Felly, rydym yn adolygu ein trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid mewn perthynas â Sgriwtini, yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ein nod yw cryfhau ymgysylltu'r Cyngor â'r cyhoedd a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r trefniadau sydd eisoes ar waith er mwyn cyfranogi yn y broses ddemocrataidd.

## 5.2 MESUR CANLYNIADAU

Mae'n anodd casglu ac asesu effaith Sgriwtini gan nad yw **canlyniadau** gweithgareddau trosolwg a sgriwtini yn rhai diriaethol bob amser ac yn aml nid yw'n bosib eu mesur yn systemataidd ac yn fanwl. Nid yw'n hawdd chwaith mesur effeithiolrwydd gallu'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini i ddylanwadu ar y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau trwy gyfrwng trafodaethau. Er hynny, mae rhai enghreifftiau lle mae cyfraniad sgriwtini wedi ychwanegu gwerth a / neu ddylanwadu ar y ffodd y mae'r Cyngor wedi gweithredu cynigion.




## 5.1 EFFAITH SGRIWTINI

Yn y pendraw, prif nod Sgriwtini yw gwella gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae deall y gwerth a ychwanegir yn sgil gwaith Sgriwtini a'i effaith gyffredinol yn deillio o allbynnau a chanlyniadau ein hystod eang o weithgareddau yn ystod y flwyddyn ddinesig. Mae Sgriwtini ar Ynys Môn felly'n cael effaith trwy:

- Godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys yr hyn sy'n gweithio'n dda ar y naill law, a ddim cystal ar y llaw arall
- Taflu goleuni ar wasanaethau'r Cyngor sydd o ddiddordeb a gwerth sylweddol i'r cyhoedd
- Darparu llwyfan ar gyfer cydweithio rhwng y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd
- Herio rhagdybiaethau polisi trwy ganiatáu i fwy o leisiau gael eu clywed fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau
- Darparu sicrwydd i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau allweddol, partneriaethau a darparu gwasanaethau
- Cynnig argymhellion i'r rheiny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau o fewn y Cyngor
- Amlygu cyfleodd posib i wella polisïau a gwasanaethau a ddarperir

### 5.2.2 ADBORTH GAN RANDDEILIAID MEWNOL

Fel rhan o'n gwaith i fesur canlyniadau ac effaith arferion Sgriwtini o fewn y Cyngor, rydym wedi cynnal rhywfaint o arolygon gydag Aelodau ac Uwch Swyddogion, trwy gyfrwng trafodaethau mewn grwpiau bychan a chan ddefnyddio cyfres o gwestiynau craidd fel fframwaith. Mae canfyddiadau'r ymarfer hwn wedi cyfrannu at ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2025/26:

**Cwestiynau hunanasesu craidd**

- Beth oedd uchafbwyntiau Sgriwtini yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- Yn eich barn chi, pa effaith gafodd Sgriwtini yn ystod 2024/25 o ran cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau effeithiol?
- Pa agweddau y gellir eu gwella neu eu darparu'n fwy effeithiol yn y dyfodol?
- Beth yw eich anghenion datblygu er mwyn eich cynorthwyo yn y rôl?
- Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad a / neu effaith gwaith Aelodau Sgriwtini mewn perthynas â phrosesau gwneud penderfyniadau?

**CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION SGRIWTINI**

Sylwadau ein Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini…

**Mae canfyddiadau ein Hadolygiad Sgriwtini wedi caniatáu i ni adeiladu ar barodrwydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith i ymgysylltu â Sgriwtini. Erbyn hyn mae'n fwy amlwg fod Aelodau Portffolio, yn hytrach na Swyddogion, yn cael eu dwyn i gyfrif**

**Gall lefelau profiad amrywiol aelodau sgriwtini effeithio ar ansawdd y trafodaethau mewn cyfarfodydd**

**Mae'r cynllun eistedd 'pwyllgor dethol' newydd a gyflwynwyd yn y pwyllgorau sgriwtini wedi gweithio'n arbennig o dda**

**Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai yr Awdurdod Lleol. Roedd hyn yn dangos Sgriwtini gwirioneddol ac effeithiol**

**Mae nodi gweithredoedd ychwanegol sy'n codi o gyfarfodydd Pwyllgor ac adrodd ar gynnydd yn dystiolaeth o sut rydym yn ychwanegu gwerth at y broses sgriwtini. Mae hyn yn arfer dda.**

**Dylai Aelodau Sgriwtini deimlo'n fwy hyderus wrth herio, gofyn cwestiynau atodol a gofyn am wybodaeth ychwanegol er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddyfnach**

## AELODAU SGRIWTINI:

Sylwadau ein Haelodau Sgriwtini…

Mae’r cyfle i ystyried ystod eang o feysydd gwasanaeth wedi caniatáu i mi wneud fy ngwaith sgriwtini’n fwy effeithiol

Mae sgriwtini’n darparu arweiniad gwerthfawr i’r Pwyllgor Gwaith, gan eu helpu i ddeall safbwyntiau’r cyhoedd a llywio eu penderfyniadau.

Un o uchafbwyntiau’r flwyddyn i mi oedd gwaith craffu manwl y Panel Sgriwtini Addysg. Roedd hyn yn darparu golwg fanwl ar y ddarpariaeth addysg yn y dosbarth

Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i’r paneli sgriwtini am eu cyfraniad gwerthfawr i sgriwtini

Uchafbwynt i mi oedd ymweld ag ysgolion, gan ganolbwyntio ar y camau cadarnhaol a gymerir i wella a datblygu’r ddarpariaeth iaith Gymraeg

Mae angen i ni ofyn cwestiynau atodol mewn cyfarfodydd pwyllgor er mwyn mynd at wraidd y mater

Mae’r Panel Sgriwtini Addysg wedi datblygu’n sylweddol dros y blynyddoedd, gan sefydlu pwrpas a chyfeiriad clir. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i wneud hyn a’n bod yn craffu a darparu tystiolaeth o’n gwaith fel Panel Sgriwtini.

Nawr fod gennym gyfle i gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb bydd yn gwella llawer iawn ar ein gallu i sicrhau sgriwtini effeithiol

Mae’n bwysig ailymweld â gweithredoedd a drafodwyd mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau atebolrwydd a gwella perfformiad ym mhob maes gwasanaeth

## AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH

Sylwadau Aelodau'r Pwyllgor Gwaith…

Mae Sgriwtini'n elfen bwysig iawn o waith y Cyngor ac mae pob cyfarfod yn cyfrannu at y broses honno

Mae gwaith diwyd ein Pwyllgorau Sgriwtini yn rhoi'r hyder i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniadau cadarn sydd wedi'u cefnogi gan her feirniadol

Mae newidiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i amlygu atebolrwydd yr Aelodau Portffolio yn ystod cyfarfodydd Sgriwtini wedi cryfhau ein Pwyllgorau Sgriwtini

Roedd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio lle'r oedd Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol yn enghraifft ardderchog o waith Sgriwtini. Yn benodol, cwestiwn am geisiadau cynllunio oedd yn amlygu rhwystredigaeth Cynghorwyr a chydnabyddiaeth y Cadeirydd o bwysigrwydd y mater.

Mae'n hanfodol fod Aelodau Sgriwtini yn herio adroddiadau yn gadarnhaol ac ystyrlon er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau cadarn a thryloyw

## Y TÎM ARWEINYDDIAETH

Mae rhai o'r agweddau y gellir eu gwella neu eu darparu'n fwy effeithiol yn y dyfodol yn cynnwys:
1.) Mynychu cyfarfodydd sgriwtini mewn person yn hytrach nag ar-lein
2.) Gofyn mwy o gwestiynau atodol

Bydd dealltwriaeth well gan Swyddogion o gyfarfodydd paratoi yn arwain at graffu mwy effeithiol mewn cyfarfodydd cyhoeddus

Rhai o'r uchafbwyntiau i mi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd:

- Mewnbwn Sgriwtini i'r broses gosod y gyllideb
- Craffu ar gyrff allanol
- Trefniadau cadarn ar waith yn gyson ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

## 6. EDRYCH YMLAEN AT 2025/26

Mae'r Awdurdod Lleol wedi comisiynu adolygiad allanol o'i strwythur sgriwtini presennol a'i drefniadau. Roedd yr adolygiad hwn yn ystyried:

i. arferion gorau o fewn y sector a meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill, gan ddarparu cyfres o argymhellion cadarn wrth symud ymlaen
ii. mesur canlyniadau ac effaith craffu gan Aelodau fel rhan annatod o ymarfer.

Canlyniadau'r adolygiad hwn yw'r sail ar gyfer y bennod nesaf yn ein taith ddatblygu.

### THEMAU ALLWEDDOL DATBLYGU SGRIWTINI: 2025/26

| Thema | Sut / Crynodeb o Weithredoedd | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Rhaglen Waith sydd â gwell Ffocws, yn fwy Cytbwys ac yn cael ei harwain gan Aelodau** | **Prawf Arwyddocâd:** Adolygu ein trefniadau ar gyfer rhaglen waith sydd â ffocws, cydbwysedd ac yn cael ei harwain gan Aelodau trwy gyflwyno proses prawf arwyddocâd newydd | **Ymgysylltu rhagweithiol gan gynghorwyr sgriwtini er mwyn blaenoriaethu eitemau ar y flaen raglen waith sgriwtini**<br><br>**Rhaglenni Pwyllgor Cryno** |
| **Strwythur Symlach ar gyfer Sgriwtini a Threfniadau Llywodraethu** | **i. Cydbwysedd rhwng cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol:** Parhau â'r paneli Sgriwtini presennol a chreu capasiti i wneud mwy o waith tasg a gorffen / gwaith maes sgriwtini wedi'i dargedu a'i flaenoriaethu.<br>**ii. Cylch Gorchwyl a Threfniadau Adrodd:** Sicrhau cylch gorchwyl a threfniadau adrodd diwygiedig ar gyfer Paneli er mwyn darparu adborth sydd yn addas i bwrpas i Riant Bwyllgorau<br>**iii. Eitemau nad oes angen eu trafod:** Blaenoriaethu eitemau i'w hystyried gan Sgriwtini trwy ddefnyddio proses Prawf Arwyddocâd gadarn | **Strwythur wedi'i ddylunio'n dda lle mae'r ffurf yn unol â'r swyddogaeth** |
| **Cyfranogiad ac Ymgysylltiad y Cyhoedd â Sgriwtini** | **i. Protocol Siarad Cyhoeddus:** Adolygu a hyrwyddo'r protocol siarad cyhoeddus o bryd i'w gilydd | **Cyfranogi ystyrlon gan drigolion sy'n ychwanegu gwerth at Sgriwtini** |

| | | |
|---|---|---|
| | ii. **Neilltuo sedd** mewn cyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno cyfrannu<br>iii. **Ehangu Ymgysylltu a Chyfranogi** - archwilio camau pellach er mwyn caniatáu mwy o ymgysylltu a chyfranogi mewn Sgriwtini | |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | • Parhau i gynorthwyo cadeiryddion i ddatblygu rôl sgriwtini, yn ogystal â bodloni gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Gwreiddio strategaeth gwestiynu gadarn yn llawn gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau fod cwestiynau sgriwtini allweddol yn cael eu cynnwys ym mhob adroddiad sgriwtini a'u bod yn cael eu gofyn mewn cyfarfodydd Panel a Phwyllgor<br>Adolygu ein trefniadau'n barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | **Canlyniadau Gwell** |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | • Parhau i gyd-gynhyrchu rhaglen gadarn er mwyn craffu ar Bartneriaid Strategol Allweddol<br>• Sicrhau aliniad â Chofrestr Partneriaethau Corfforaethol y Cyngor | **Hyrwyddo dull cydweithredol o wneud penderfyniadau a sicrhau fod safbwyntiau amrywiol yn cael eu hystyried**<br>**Arfarnu llwyddiant partneriaethau gan sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion a fwriadwyd, yn unol â Chynllun y Cyngor a'r weledigaeth** |
| **Parhau i Hunanasesu ein Trefniadau Sgriwtini Lleol** | • Sicrhau fframwaith hunanarfarnu cadarn ar gyfer Aelodau Sgriwtini fel elfen allweddol o'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini, gan gydweithio gydag Aelodau'r | **Darparu hunanasesiad cynhwysfawr a thrylwyr o'n trefniadau sgriwtini lleol**<br>**Edrych tuag allan** |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trwy Sefydliadau Proffesiynol ledled y DU er mwyn meincnodi ein perfformiad yn erbyn y sefydliadau sy'n perfformio orau | **Mesur cynnydd a nodi meysydd twf neu feysydd i'w gwella** |

## 7. CYSYLLTU Â SGRIWTINI

**7.1** I gael gwybod mwy am sgriwtini ar Ynys Môn neu i gyflwyno eich safbwyntiau, cysylltwch â:

Tîm Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini | **Ffôn:** 07971167198<br>**E-bost:**<br>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |
| Elin Allsopp | Swyddog Sgriwtini | **Ffôn:** 07812700543<br>**E-bost:**ElinAllsopp2@ynysmon.llyw.cymru |

# Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini: 2024/25

# ATODIADAU

# ATODIAD 1

## BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI?

### Cyd-destun polisi cenedlaethol

### Cyd-destun Cenedlaethol:

Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Yn ogystal â sefydlu gweithrediaeth i wneud penderfyniadau, mae'n ofynnol, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl bennaf yw dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Llywodraethu a Chraffu Cyhoeddus (CfGS)[3] yn arddel pedair egwyddor allweddol er mwyn cefnogi gwaith sgriwtini effeithiol gan Aelodau:

i. Darparu her "cyfaill beirniadol" cadarnhaol;
ii. Amlygu lleisiau a phryderon y cyhoedd;
iii. Cael ei arwain gan bobl annibynnol sy'n derbyn cyfrifoldeb am eu rôl;
iv. Gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

[3] Good Scrutiny Guide, Y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu 2019

# ATODIAD 2

**CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH EIN PWYLLGORAU SGRIWTINI**

- Mae'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael ei chyflawni drwy gyfrwng strwythur sy'n cynnwys dau riant bwyllgor sgriwtini – y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### Cylch Gorchwyl:

- Ffocws gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yw darparu sicrwydd ynglŷn â chyflawni a darparu'r holl wasanaethau; sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol ac amcanion gwasanaeth (fel y cânt eu hamlinellu yn y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Flynyddol, y Fframwaith Cyllideb a Pholisi, y Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu eu cynlluniau a'u polisïau olynol); a chefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.
- Mae aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cynnal cyfarfodydd paratoi cyn pob pwyllgor er mwyn paratoi a rhoi ffocws i'r drafodaeth yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor. Ystyrir bod hyn yn arfer dda a bwriedir sicrhau fod y trefniadau hyn ar waith yn 2024/25.

### Aelodaeth

- Y Cynghorydd Douglas Massie Fowlie yw cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chaiff ei gefnogi gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Sonia Williams. Mae deuddeg Aelod Etholedig yn aelodau o'r pwyllgor, ynghyd â darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

## Aelodaeth o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### Aelodau Etholedig

| | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol / Grŵp | | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Douglas Fowlie (Cadeirydd) | Crigyll | Annibynwyr Môn |  | Cyng. Sonia Williams (Is-gadeirydd) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Ieuan Williams | Lligwy | Y Grŵp Annibynnol |  | Cyng. Arfon Wyn | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |
|  | Cyng. John Ifan Jones | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |  | Cyng. Aled Morris Jones | Twrcelyn | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng. Jackie Lewis | Talybolion | Plaid Cymru |  | Cyng. Keith Roberts | Ynys Cybi | Llafur Cymru |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Llio A Owen | Talybolion | Plaid Cymru |  | Cyng. Robert Llewelyn Jones | Parc a'r Mynydd | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng. Alwen Pennant Watkin | Bodowyr | Plaid Cymru |  | Cyng. Geraint ap Bebb | Cefni | Plaid Cymru |

## Aelodau Cyfetholedig



Mr John Tierney

Yn cynrychioli: Yr Eglwys Gatholig Rufeinig



Mrs Wenda Owen

Yn cynrychioli: Yr Eglwys yng Nghymru



Mrs Gillian Thompson

Yn cynrychioli: Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd

Sedd Wag: Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY

# Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

## Cylch Gorchwyl:

- Prif ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yw sicrhau fod buddiannau Dinasyddion Ynys Môn yn cael eu hyrwyddo ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, er mwyn dangos y gwerth ychwanegol sy'n deillio o weithio gyda phartneriaid. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â threfniadau lleol.
- Y Pwyllgor hefyd yw'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn enwebedig sy'n delio â materion trosedd ac anhrefn, yn unol â gofynion o dan Adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Hwn yw'r Pwyllgor dynodedig hefyd ar gyfer craffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.
- Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r arfer o gynnal cyfarfodydd briffio gydag Aelodau cyn pob cyfarfod ffurfiol o'r pwyllgor sgriwtini. Ystyrir bod hyn yn arfer dda a bwriedir sicrhau fod y trefniadau hyn ar waith yn 2024/25.

## Aelodaeth:

- Y Cynghorydd Dylan Rees yw Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a chaiff ei gefnogi gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym Owen Jones. Mae deuddeg aelod yn aelodau o'r pwyllgor hwn hefyd ac mae darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

## Aelodaeth o’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

### Aelodau Etholedig

| | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Non Dafydd | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Euryn Morris | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Sonia Williams | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Ken Taylor | Bro’r Llynnoedd | Plaid Cymru |

| | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Gwilym O Jones (Is-gadeirydd) | Bro’r Llynnoedd | Y Grŵp Annibynnol |
|  | Cyng. Margaret Roberts | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Jeff Evans | Tref Cybi | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng. Derek Owen | Twrcelyn | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng. Pip O’Neill | Tref Cybi | Llafur Cymru |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Paul Ellis | Canolbarth Môn | Annibynwyr Môn |  | Cyng. John Ifan Jones | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |

## Aelodau Cyfetholedig



Mr John Tierney

Yn cynrychioli: Yr Eglwys Gatholig Rufeinig



Mrs Wenda Owen

Yn cynrychioli: Yr Eglwys yng Nghymru



Mrs Gillian Thompson

Yn cynrychioli: Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd

Sedd Wag: Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY

Gall ein pwyllgorau sgriwtini gyflawni eu gwaith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried pwnc mewn cyfarfod ffurfiol
- Ystyried pwnc yn fwy manwl trwy sefydlu panel canlyniad sgriwtini NEU
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes polisi penodol.

Unwaith eto yn ystod 2024/25, roedd y pwyllgorau sgriwtini yn ymwybodol o'r angen i geisio canolbwyntio eu gwaith ar ganlyniadau a gweithredu o fewn fframwaith Archwilio Cymru o nodweddion a chanlyniadau sgriwtini a throsolwg effeithiol mewn llywodraeth leol[4]

- Canlyniadau Gwell
- Penderfyniadau Gwell
- Craffu'n Well

**Galw penderfyniadau i mewn:** Gall pwyllgorau sgriwtini "alw i mewn" penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, Aelod Portffolio neu swyddog sydd wedi cael pwerau dirprwyedig gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad penodol. Nid yw'r pwyllgorau sgriwtini ond yn galw penderfyniad i mewn pan mae rheswm da dros wneud hynny (drwy Brawf Arwyddocâd), ac ni chafodd yr un penderfyniad ei alw i mewn yn ystod 2024/25.

[4] Craffu Da? Cwestiwn Da!, Swyddfa Archwilio Cymru, 2014

# ATODIAD 3

## GWELEDIGAETH AR GYFER CYFLAWNI SGRIWTINI EFFEITHIOL O FEWN Y CYNGOR

### Ein Gweledigaeth

- Nod Sgriwtini ar Ynys Môn yw sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau ac ychwanegu at effeithiolrwydd yr Awdurdod Lleol drwy gynorthwyo i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tryloyw, cynhwysol, atebol a chost effeithiol.



### Ein Hegwyddorion

- Mae sgriwtini'n creu awyrgylch o gydymddiriedaeth, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cymunedau lleol ar Ynys Môn
- Mae Aelodau Sgriwtini yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi a herio mewn ffordd anwleidyddol
- Mae gweithgarwch Sgriwtini'n ehangu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno rhaglenni trawsnewid trwy gyflwyno barn ynglŷn â sut mae cymunedau lleol yn debygol o ymateb i gynigion.
- Mae Aelodau Sgriwtini yn helpu i sicrhau fod dull strategol, tymor hir yn cael ei ddilyn pan fydd strategaethau gwasanaeth sylweddol yn cael eu hystyried, a hynny drwy gynnig her adeiladol wrth brofi rhagdybiaethau, edrych ar risgiau a herio sut mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.



### Ein Gwerthoedd

Mae Sgriwtini ar Ynys Môn…

- Yn edrych ymlaen ac yn edrych tuag allan, ac mae'n rhagweithiol (yn hytrach nag yn fewnol ac ymatebol)
- Â rôl yn nhrefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor sydd wedi'i diffinio'n glir ac yn cael ei gwerthfawrogi.
- Yn anwleidyddol ac mae'n cynnwys amrediad eang o dystiolaeth a safbwyntiau, gan gynnwys safbwyntiau partneriaid strategol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd.
- Yn cael ei arwain gan Aelodau Etholedig sydd derbyn y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol.
- Yn derbyn cefnogaeth effeithiol gan Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer Sgriwtini o ansawdd uchel ac ar gael yn amserol a chyson.

- Yn ystyried pryderon a fynegir yn y wardiau wrth reoli ei flaen raglen waith, ond heb fod yn blwyfol.
- Yn cael ei gynllunio'n dda, ei gadeirio'n effeithiol ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo.
- Yn cael ei gydnabod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth fel dull pwysig o eiddo'r Cyngor ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a chynnwys dinasyddion yn well mewn perthynas â llywodraethiant.
- Yn datblygu ymddiriedaeth a pherthynas gadarnhaol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.



# ATODIAD 4

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# PROTOCOL SGRIWTINI

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae sgriwtini yn elfen allweddol wrth ddal i gyfrif, mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol, gwaith y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau'r Cyngor (y Pwyllgor Gwaith a swyddogion) a sefydliadau partner er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028[5] a gwneud penderfyniadau gwell. Mae sgriwtini yn cynorthwyo gwasanaethau i gynnal safonau gwasanaeth uchel a'u llywio tuag at wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

1.2 Mae'r Protocol hwn yn berthnasol i holl Aelodau Sgriwtini, holl Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a Swyddogion y Cyngor sy'n cefnogi ac yn ymwneud â'r swyddogaeth Sgriwtini.

## 2. Nodau

2.1 Nod y Protocol hwn yw:

i. egluro'r berthynas rhwng y Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau Sgriwtini
ii. sicrhau bod busnes yn mynd rhagddo'n esmwyth
iii. cynnal cysylltiadau effeithiol rhwng Aelodau Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith a swyddogion y Cyngor
iv. Hyrwyddo rôl effeithiol ar gyfer Sgriwtini a meithrin perthynas weithio dda rhwng Pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith a swyddogion y Cyngor, gan sicrhau fod Sgriwtini'n gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at redeg y Cyngor yn effeithiol, yn ogystal ag ychwanegu gwerth.

## 3. Dal y Pwyllgor Gwaith i Gyfrif

3.1 Rôl Sgriwtini yw dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif trwy:

- Ystyried penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unigol ac ar y cyd, ac eitemau ar y Flaen Raglen Waith trwy gyfrwng cyfarfodydd sgriwtini ffurfiol
- Adolygu perfformiad gwasanaethau a pherfformiad yn erbyn polisïau a thargedau
- Bod yn barod i ofyn cwestiynau craff a threiddgar sy'n cynnig her adeiladol ac sy'n berthnasol i'r materion sy'n cael eu craffu
- Bod yn gadarnhaol a pharchus yn eu trafodaethau ag Aelodau'r Pwyllgor Gwaith
- Cynrychioli llais y cyhoedd
- Gwrando ar yr ymatebion a gyflwynwyd a chynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i nodi meysydd i'w hystyried a'u gwella ymhellach
- Mae Aelodau Sgriwtini yn anwleidyddol yn y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi a herio

[4]Cynllun y Cyngor: 2023-2028

3.2 Mewn ymateb i hynny, bydd Aelodau’r Pwyllgor Gwaith yn:

- Barod i fod yn agored, yn onest ac i fynd ati i ymateb i her gadarnhaol
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd Sgriwtini
- Cefnogi prosesau sgriwtini a gwahodd a cheisio barn gan Aelodau Sgriwtini ar benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud, lle bo hynny’n briodol
- Cyfrannu’n gadarnhaol mewn cyfarfodydd sgriwtini
- Mynychu cyfarfodydd pan fyddant yn derbyn gwahoddiad, er mwyn ateb cwestiynau a chyflwyno gwybodaeth.

## 4. Atebolrwydd y Pwyllgor Gwaith

4.1 Gan adeiladu ar barodrwydd y Pwyllgor Gwaith i ymgysylltu â Sgriwtini, gwella atebolrwydd a thryloywder ymhellach trwy fynd ati i amlygu’n well eu bod yn dal Aelodau Portffolio, yn hytrach na swyddogion, i gyfrif trwy:

- Sicrhau trefniadau eistedd “Pwyllgor Dethol” yn yr ystafell bwyllgor trwy gadw Aelodau Portffolio ac Aelodau Sgriwtini ar wahân, yn ogystal â Swyddogion y Cyngor
- Dylai Aelodau Portffolio gael eu briffio gan y Cyfarwyddwr neu’r Pennaeth Gwasanaeth arweiniol perthnasol cyn bob cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini
- Dylai cyflwyniadau agoriadol gan Aelodau Portffolio fod yn gryno er mwyn caniatáu cymaint â phosib o amser i Aelodau Sgriwtini ofyn cwestiynau
- Mewn cyfarfodydd, dylid gofyn cwestiynau i’r Aelod Portffolio ymateb iddynt yn y lle cyntaf, gyda Phrif Swyddogion yn cynorthwyo i ymateb i gwestiynau ategol yn ôl y gofyn
- Dylai adroddiadau Pwyllgor Sgriwtini gael eu cyhoeddi yn enw’r Aelod Portffolio perthnasol
- Bydd y trefniadau’n amrywio pan fydd cyrff allanol yn mynychu, yn ddibynnol ar rôl y Cyngor.

## 5. Blaen Raglen Waith Sgriwtini

5.1 Ar ddechrau pob blwyddyn ddinesig, bydd y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn awgrymu pynciau, gan ddefnyddio’r Prawf Arwyddocâd Sgriwtini, er mwyn nodi nifer fechan o flaenoriaethau (yn gysylltiedig â Chynllun y Cyngor 2023-2028) i’w cynnwys yn y Flaen Raglen Waith Sgriwtini.

5.2 Bydd y flaen raglen waith Sgriwtini yn cael ei monitro a’i hadolygu o dro i dro trwy gydol y flwyddyn ddinesig gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini.

5.3 Bydd fersiwn ddiweddaraf y flaen raglen waith Sgriwtini’n cael ei chynnwys ar raglen bob cyfarfod Pwyllgor fel eitem er gwybodaeth yn unig.

## 6. Ymddygiad, Gwerthoedd a Diwylliant

6.1 Ynghyd â’r Cod Ymddygiad i Aelodau[6] a Chynllun y Cyngor[7], bydd Aelodau Sgriwtini ac Aelodau’r Pwyllgor Gwaith yn cytuno i weithredu’n unol â’r gwerthoedd a’r ymddygiadau canlynol:

[6] Paragraff 5.1: Cod Ymddygiad i Aelodau - Cyfansoddiad y Cyngor
[7] Gwerthoedd ac Egwyddorion Cyffredinol Cynllun y Cyngor 2023-2028

- Cyfathrebu'n effeithiol drwy ofyn cwestiynau penodol ar y pwnc sy'n cael ei graffu
- Ymrwymo i baratoi cyn cyfarfodydd er mwyn gofyn cwestiynau treiddgar
- Meithrin awyrgylch o ymddiriedaeth, gonestrwydd, uniondeb a bod yn agored
- Bod yn gadarnhaol a pharchus wrth ymwneud â'i gilydd
- Rheoli unrhyw feysydd y ceir anghytuno yn eu cylch mewn ffordd adeiladol a phroffesiynol
- Cydweithio a gweithio mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
- Bod yn anwleidyddol a chynnwys amrediad eang o dystiolaeth a safbwyntiau.

6.2 Yn unol â'r Cod Ymddygiad i Swyddogion, bydd Swyddogion yn cytuno i weithredu'n unol â'r gwerthoedd a'r ymddygiadau canlynol:

- Cydymffurfio â pholisïau'n ymwneud â materion cydraddoldeb
- Ni ddylent ganiatáu i'w diddordebau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus
- Trin pawb â pharch
- Bod yn gadarnhaol a chroesawu dysgu a datblygu

6.3 Bydd Swyddogion ac Aelodau'n cytuno i weithio gyda'i gilydd yn unol â'r Protocol ar gyfer y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion trwy arddel y gwerthoedd a'r ymddygiadau canlynol:

- Meithrin hyder ac ymddiriedaeth yn y naill a'r llall
- Cydnabod, a pharchu, rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall
- Parchu amser rhydd y naill a'r llall (h.y. amser nad yw'n amser y Cyngor).

## 7. Ymateb ac Argymhellion

7.1 Bydd argymhellion Sgriwtini yn glir a rhesymegol a bydd y canlyniadau'n canolbwyntio ar gefnogi ymateb a monitro a chynorthwyo i dystiolaethu effaith sgriwtini ar fusnes y Cyngor:

- Dylai argymhellion fod yn rhai SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol).
- Bydd y Pwyllgor Gwaith yn rhoi ystyriaeth briodol i argymhellion a safbwyntiau sgriwtini
- Yn y Pwyllgor Sgriwtini, bydd Aelodau'n gwneud cynigion ar faterion sydd wedi'u rhaglennu i gael eu hystyried mewn cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Gwaith. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini yn cyflwyno argymhellion y Pwyllgor a bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried yr argymhellion hynny wrth wneud eu penderfyniadau ffurfiol
- Bydd ymatebion yn cynnwys esboniad dros beidio â derbyn unrhyw argymhellion
- Bydd y Cadeirydd Sgriwtini perthnasol yn bresennol yn y Pwyllgor Gwaith er mwyn cyflwyno adborth o'i Bwyllgor ar faterion perthnasol
- Bydd pwyllgorau Sgriwtini yn cofnodi argymhellion ac ymatebion er mwyn eu monitro'n barhaus.

## 8. Galw i Mewn

8.1 Gall sgriwtini arfer yr hawl i alw i mewn, i'w hailystyried, penderfyniadau (o fewn ei gyfrifoldebau) y mae'r Pwyllgor Gwaith (neu aelod o'r Pwyllgor Gwaith) wedi eu gwneud

ond nad ydynt wedi cael eu gweithredu eto, fel y nodir yn y Cyfansoddiad. Mae hyn yn caniatáu i aelodau Sgriwtini ystyried a yw'r penderfyniad yn addas. Gallant argymell bod Penderfyniad y Pwyllgor gwaith yn sefyll. Gallant argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn ailystyried eu penderfyniad neu gallant gyfeirio penderfyniad y Pwyllgor Gwaith at y Cyngor llawn.

8.2 Hyd yn oed oes yw'r Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad y Pwyllgor Gwaith, nid oes ganddo unrhyw bŵer i roi feto ar benderfyniad y Pwyllgor Gwaith, na'i newid, oni bai ei fod yn groes i'r Gyllideb a osodwyd gan y Cyngor, neu bolisi/strategaeth allweddol a luniwyd gan y Cyngor llawn (mater a gadwyd yn ôl).

8.3 Os oedd mater a gyfeiriwyd at y Cyngor llawn yn un yr oedd gan y Pwyllgor Gwaith awdurdod drosto, yna, er na all y Cyngor newid neu roi feto ar y penderfyniad, gall gyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor Gwaith gydag argymhellion. Os nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yna nid oes angen camau pellach a bydd y penderfyniad yn dod i rym yn unol â'r Cyfansoddiad.

8.4 Ni fydd y trefniadau galw i mewn a nodir yn y Cyfansoddiad yn berthnasol os yw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys os byddai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn yn niweidio buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd yn ddifrifol. Os argymhellir y dylai'r Pwyllgor Gwaith atal yr hawl i alw i mewn, yna mae'n rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno ar hynny ymlaen llaw.

8.5 Bydd gweithredu'r darpariaethau'n gysylltiedig â galw i mewn a materion brys yn cael ei fonitro'n flynyddol, a bydd y Pennaeth Democratiaeth yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor fydd yn cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer eu hadolygu os bydd angen.

## 9. Cynnal y Protocol

9.1 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Pennaeth Democratiaeth yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â'r Protocol Pwyllgor Gwaith/Sgriwtini a ddylai gael ei ddefnyddio gan Aelodau i gefnogi'r nod ehangach o gefnogi a hyrwyddo diwylliant o graffu. Bydd llwyddiant y protocol yn cael ei benderfynu gan:

- Gydnabyddiaeth o werth sgriwtini
- Cofnod clir o her adeiladol
- Proses agored ac atebol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

9.2 Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Sgriwtini i'r Cyngor llawn bob blwyddyn gyda'r bwriad o ddangos effaith Sgriwtini ac effeithiolrwydd y Protocol.

**Troednodyn**
Trefniadau eistedd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini - bydd y gwahaniaeth rhwng aelodau pwyllgor (a swyddogion sydd fel arfer yn cynorthwyo aelodau'r pwyllgor), cynghorwyr eraill a swyddogion eraill yn cael ei ddangos yn glir er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd.

**FERSIWN DERFYNOL**
**05/02/2025**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 20 Mai 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Cydbwysedd Gwleidyddol Pwyllgorau |
| **Adroddiad gan:** | Pennaeth Democratiaeth |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol ar Bwyllgorau yn unol a cyfansoddiad y Cyngor |

**Cefndir**

1. Mae angen i'r Cyngor adolygu trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei bwyllgorau bob blwyddyn yn unol a'r cyfansoddiad.

2. Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol, sef:

   *"a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

   *b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

   *c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

   d) *subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*[1]

[1] Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 Adran 15 (5) (a) – (d)

3. Dyma’r sefyllfa o ran aelodaeth grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor:

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru - | 20 |
| Annibynwyr Môn - | 8 |
| Y Grŵp Annibynnol - | 4 |
| Llafur Cymru - | 3 |
| **Cyfanswm -** | **35** |

**Dyraniad Seddi Pwyllgor**

4. Oni bai fod y cyfrifo yn rhoi rhif cyfan o ran nifer cyffredinol y seddau neu nifer y seddau ar bob pwyllgor, yna mae’n rhaid sicrhau’r cydymffurfiaeth gorau posib yn unol â’r egwyddorion a nodir ym mharagraff 2 uchod.

5. Dim ond un newid sydd i’r pwyllgorau a’r dyraniad seddi ers i’r Cyngor ystyried ddiwethaf. Yn sgil cytuno ar drefniadau pwyllgor craffu y Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, mae Cyngor Sir Ynys Mon yn cael 2 sedd ar y pwyllgor. Mae’r pwyllgor yn destun trefniadau balans gwleidyddol ac wedi ei ychwanegu i’r rhestr yn Atodiad A.

6. Rhaid i unrhyw grwp gwleidyddol ar y Cyngor ddyrannu’r seddau y mae’n eu derbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i’w aelodau ei hun yn unig. Ni all ddyrannu sedd i aelod etholedig nad yw’n aelod o’r un grŵp gwleidyddol.

7. Yn unol â’r protocol rheolaeth wleidyddol, ymgynghorwyd ag Arweinyddion y Grwpiau ynglŷn â newid i ddyraniad seddi fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn.

8. Argymhellion
   a. Bod y Cyngor yn cadarnhau’r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor a amlinellir yn Atodiad A.
   b. Bod Arweinyddion y Grwpiau yn hysbysu’r Pennaeth Democratiaeth cyn gynted ag y bo modd ynglŷn ag unrhyw newid o ran aelodaeth grwpiau ar Bwyllgorau.

**Mai / May 25**

| Balans ar y Cyngor Sir<br>Balance on County Council | |
|---|---|
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 20 |
| Llafur Cymru<br>Welsh Labour | 3 |
| Y Grwp Annibynnol | 4 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | 8 |
| | 35 |

**PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**
**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES**

| Pwyllgorau<br>Committees | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyd-Bwyllgor Corfforedig<br>CJC | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 12 | 12 | 2 | 26 |
| | 7 | 7 | 1 | 15 |
| | 1 | 1 | | 2 |
| | 1 | 1 | | 2 |
| | 3 | 3 | 1 | 7 |
| | 12 | 12 | 2 | 26 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaethol* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| | Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn |
| | Bottom right, normal = whole number suggestion |

| | LLED-FARNWROL<br>QUASI-JUDICIAL | | | | | | | | PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR<br>OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Llywodraethu ac Archwilio<br>Governance & Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Ymchwilio<br>Investigation | Disgyblu<br>Disciplinary | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing | CYS<br>SAC | Pwyllgor Polisi Cynllunio<br>Planning Policy Committee | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill<br>Total Others | **CYFANSWM LLAWN**<br>**GRAND TOTAL** |
| Aelodaeth<br>Membership | 13 | 8 | 9 | 12 | 3 | 3 | 12 | 13 | 6 | 11 | 3 | 5 | 98 | 124 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 8 | 4 | 5 | 7 | 2 | 2 | 7 | 8 | 3 | 6 | 2 | 3 | 57 | 72 |
| Llafur<br>Labour | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 8 | 10 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 9 | 11 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | 3 | 2 | 2 | 3 | 1 | 1 | 3 | 3 | 1 | 3 | 1 | 1 | 24 | 31 |
| Cyfanswm | 13 | 8 | 9 | 12 | 3 | 3 | 12 | 13 | 6 | 11 | 3 | 5 | 98 | 124 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 20 Mai 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Cynrychiolaeth ar gyrff allanol |
| **Adroddiad gan:** | Pennaeth Democratiaeth |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Derbyn cadarnhad y Cyngor i'r gynrychiolaeth ar gyrff allanol |

**Cefndir**

1. Yn unol ag adran 5.8 y cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadarnhau yn flynyddol y rhestr o gynghorwyr a benodwyd i gyrff allanol.

2. Yr Arweinydd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Democratiaeth sydd a'r hawl i benderfynu ar gynrychiolaeth ar gyrff allanol pan mae'n rhaid cael aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Mae penodiadau eraill i gyrff allanol yn destun cadarnhad gan y Cyngor llawn.

3. Fel arfer bydd penodiadau i gyrff allanol am gyfnod o bum mlynedd, hyd at yr etholiadau llywodraeth leol nesaf (mis Mai 2027) ac yn amodol ar adolygiad neu gadarnhad blynyddol. Os bydd angen gwneud newidiadau i benodiadau yn ystod y cyfnod, rhoddwyd yr awdurdod i'r Prif Weithredwr wneud hynny mewn ymgynghoriad gyda arweinyddion y grwpiau gwleidyddol perthnasol. Ymgynghorwyd gyda arweinyddion y grwpiau ar gynnwys atodiad 1 mewn cyfarfod ar 1 Mai.

4. Gwnaed newidiadau i gynrychiolaeth rhai cyrff allanol yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu newidiadau cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Gwaith.

5. Mewn perthynas â chyrff allanol lleol sydd wedi eu cyfyngu yn bennaf neu'n rhannol i ward unigol, bydd Cynghorwyr y ward berthnasol fel arfer yn cytuno ar y cynrychiolydd ymysg ei gilydd. Mae protocol ar ymgysylltu gyda grwpiau lleol yn rhan o gyfansoddiad y Cyngor ac mae'n rhoi arweiniad ar ymgysylltu gyda grwpiau lleol fel cynghorau cymuned a fforymau lleol.

6. Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i Gynghorydd sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau corff allanol barhau i gydymffurfio gyda’r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, gan gynnwys datgan diddordebau personol ac/neu ddiddordebau sy’n rhagfarnu.

7. Dylai Cynghorydd a benodwyd i gorff allanol geisio cynrychioli sylwadau a diddordebau’r Cyngor yn ei gyfanrwydd gan gynnwys ei bolisïau a’i benderfyniadau. Gall y Cynghorydd nodi bod eu barn eu hunain, neu farn eu Grŵp yn wahanol i safbwynt y Cyngor pe bai angen.

8. Dylai Cynghorydd hefyd geisio cael brîff gan y swyddogion perthnasol yn y Cyngor cyn unrhyw gyfarfodydd arwyddocaol o’r corff allanol dan sylw, yn arbennig os oes penderfyniadau yn cael eu gwneud gallai effeithio ar gyllideb neu gynlluniau’r Cyngor. Dylai Cynghorydd hefyd adrodd yn ôl i’r prif swyddog, neu i’r prif weithredwr, ar faterion o’r fath.

**Argymhelliad**

9. Y Cyngor i gadarnhau y penodiadau i gyrff allanol a restrir yn Atodiad 1.

**ATODIAD 1**

**CYNRYCHIOLAETH I'W GADARNHAU GAN Y CYNGOR LLAWN**

| **Rhif** | **Teitl** | **Nifer yr Aelodau sydd eu hangen** | **Enwau'r Cynrychiolydd (wyr)** |
|---|---|---|---|
| 1. | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ***** | 3 | Jeff Evans, Dylan Rees, John Ifan Jones |
| 2. | Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru *(2 aelod o'r 3 uchod)* | 2 | Dylan Rees, John Ifan Jones |
| 3. | Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru *(yr aelod sydd ar ôl)* | 1 | Jeff Evans |
| 4. | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (*Arweinydd a Dirprwy Arweinydd)* | 2 | Gary Pritchard a Robin Williams |
| 5. | Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa (*7 aelod yn cynnwys yr aelodau lleol yn Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 (Aelodau Lleol + 1 Aelod arall) | Jackie Lewis, Ken Hughes, Llio Owen, Aled M. Jones, Derek Owen, Liz Wood a Gwilym O. Jones |
| 6. | Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE | 5 | Neville Evans, Paul Ellis, Dafydd Rhys Thomas, Pip O' Neill, John I. Jones |
| 7. | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ****** | 1 | Non Dafydd |
| 8. | CAB Ynys Môn | 1 | Robin Williams |
| 9. | Medrwn Môn *(Sylwedydd heb bleidlais)* | 1 | Gary Pritchard |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. | Grŵp Mynediad Ynys Môn | 1 | Liz Wood |
| 11. | Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhoslligwy (76) *(aelod lleol)* | 1 | Margaret M. Roberts |
| 12. | Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | 1 | Alun Roberts |
| 13. | Panel Maethu | 1 | Gary Pritchard |
| 14. | Fforwm Cyngor Taleithiol Cymru (CLLC/WLGA) *(hawl i 2 aelod gydag un ohonynt yn Ddeilydd Portffolio Adnoddau Dynol)* | 1 | Carwyn Jones, Robin Williams |
| 15. | Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol *(aelodaeth yn ôl cydbwysedd gwleidyddol)* | 5 | Jeff Evans, Gwilym O. Jones, Jackie Lewis, Keith Roberts, Arfon Wyn |
| 16. | Fforwm Iaith Môn (i gynnwys yr Aelod Portffolio dros yr Iaith Gymraeg) | 4 | Dafydd Roberts, Gary Pritchard, Gwilym O. Jones, Arfon Wyn |
| 17. | Pwyllgor Safonau | 2 | Margaret Roberts, Dafydd Rhys Thomas |
| 18. | Bwrdd Age Cymru Gwynedd a Môn | 1 | Gwilym Jones |

*** Mae gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r penodiadau hyn**

**** Mae'r Panel yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol ar draws y rhanbarth. Mae cynrychiolydd Ynys Môn i ddod o Grwp Plaid Cymru**

**PENCAMPWYR**

| | | **Enw'r Sawl a Enwebwyd yn Bencampwr** |
|---|---|---|
| Pencampwr Oed Gyfeillgar | 1 | Gwilym O. Jones |
| Pencampwr Gofalwyr | 1 | Trefor Lloyd Hughes, MBE |
| Aelod Arweiniol/Pencampwr ar Gyfer Diogelu Oedolion | 1 | Alun Roberts |
| Pencampwr Plant a Phobl Ifanc | 1 | Llio Angharad Owen |
| Pencampwr Lluoedd Arfog | 1 | Glyn Haynes |
| Pencampwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 1 | Alun Roberts |
| Pencampwr Sgriwtini (*penodiad bob yn ail rhwng cadeiryddion y 2 bwyllgor sgriwtini)* | 1 | Dylan Rees |
| Pencampwr Aelodau | 1 | Dylan Rees |
| Pencampwr Plant mewn Gofal | 1 | Dyfed Wyn Jones |
| Pencampwr Newid Hinsawdd | 1 | Geraint Bebb |
| Pencampwr Caffael | 1 | Robin Williams |
| Pencampwr Anghenion Dysgu Ychwanegol | 1 | Arfon Wyn |

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad:** | 20 Mai 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2025 i 2026 |
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151 / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Derbyn penderfyniadau'r Panel a chadarnhau nifer y taliadau uwch gyflogau yn 2025-26 |

## 1. Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforedig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnâ'r Panel.

Daeth adroddiad blynyddol y Panel yn weithredol ar 1 Ebrill 2025. Mae'r adroddiad wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth baratoi cyllideb 2025-26 ac mae cyllid digonol wedi'i neilltuo er mwyn ariannu taliadau aelodau.

Mae'r prif newidiadau sy'n berthnasol i'r Cyngor wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad hwn.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# 2. Penderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2025 i 2026

## 2.1 Taliadau i aelodau etholedig

Mae’r tabl isod yn rhestru’r deilyddion swydd oedd â hawl i dderbyn uwch gyflogau a chyflogau dinesig yn 2024-25 (yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 21 Mai 2024) ac yn cymharu cyflogau 2024-25 â’r cyflogau sy’n daladwy ers 1 Ebrill 2025:

| **Rôl / Swydd** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i’r holl aelodau, sydd wedi’i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £18,666 | **£19,771** |
| **Band 1**: | | |
| Arweinydd | £59,498 | **£63,020** |
| Dirprwy Arweinydd | £41,649 | **£44,114** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau’r Pwyllgor Gwaith | £35,699 | **£37,812** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £27,999 | **£29,657** |
| Cadeirydd y Cyngor | £27,999 | **£29,657** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £27,999 | **£29,657** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £22,406 | **£23,726** |

Mae’r cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy’n daladwy (‘y cap’) yn parhau ar 17, gan gynnwys cyflogau dinesig.

## 2.3 Taliadau eraill

Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i’r cyflogau a’r lwfansau a delir. Caiff yr holl benderfyniadau cyfredol eu cyhoeddi ar wefan y Panel.

# 3. Taliadau i aelodau cyfetholedig

Y llynedd, cyflwynodd y Panel yr opsiwn i aelodau cyfetholedig gael eu talu'n unol â chyfradd fesul awr yn hytrach na chyfradd diwrnod neu hanner diwrnod ac fe roddwyd hyblygrwydd lleol i'r ‘swyddog perthnasol’ benderfynu pryd y byddai’n briodol gwneud hynny.



Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Mae pedwar o bwyllgorau'r Cyngor yn cynnwys aelodau cyfetholedig, sef y Pwyllgor Safonau, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r ddau bwyllgor sgriwtini. Nid yw'r Cyngor hwn wedi gweithredu'r gyfradd fesul awr hyd yn hyn. Petai hynny'n newid, bydd angen sicrhau cysondeb o ran y meini prawf a ddefnyddir gan swyddogion perthnasol y pedwar pwyllgor.

Mae'r Panel wedi nodi ei fwriad i gynnig arweiniad drwy ddarparu enghreifftiau o arferion da er mwyn gweithredu'r cyfraddau hyn, ond nid oes unrhyw arweiniad wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn.

## 4. Trosglwyddo swyddogaethau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Dyma adroddiad blynyddol olaf y Panel. Yn unol â'r Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, bu i swyddogaethau'r Panel drosglwyddo i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar 1 Ebrill 2025.

Mae'r Panel wedi llunio adroddiad etifeddiaeth er mwyn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo swyddogaethau i'r Comisiwn.

## 5. Argymhellion

Gofynnir i'r Cyngor:

5.1 dderbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2025-26

5.2 gadarnhau y bydd deilyddion yr un swyddi â 2024-25 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau yn 2025-26, sef:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd y Cyngor
Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)
Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf
Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2)
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

5.3 awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026:
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

This page is intentionally left blank